PRIS 75c

Rhif 346

Chwefror 2012

# Y TINCER

PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

## Dyfodol disglair

Tan yn ddiweddar bu cyfres arbennig S4C, Llais i Gymru yn dilyn y cwmni recordiau rhyngwladol Decca wrth iddynt geisio dod o hyd i dalent gerddorol Gymreig yng Nghymru.

Y gobaith oedd darganfod llais a allai, o bosib, sicrhau cytundeb recordio ac fe wnaeth tua chwe chant o bobl roi tro arni ond dim ond pedwar perfformiwr lwcus roddwyd ar y rhestr fer, sef (o'r chwith i'r dde yn y llun) James Williams o Bontypridd, Rhiannon Herridge o Gaerfyrddin, Trystan Llŷr Griffiths o Glunderwen, Sir Benfro a Lisa Angharad o Drefeurig.

Ar banel *Llais i Gymru* roedd yr asiant a'r arweinydd côr Sioned James, Rheolwr Gyfarwyddwr Mark Wilkinson a Phennaeth A&R Tom Lewis i gwmni Decca, ac yn y rhaglen olaf fe benderfynon nhw mai Trystan wnaeth ddenu eu sylw fwyaf. Yn ôl Mark a Tom o gwmni Decca, mi roedd y broses yn llwyddiant diamheuol ac mi roedd canmoliaeth i'r pedwar. Ond gyda chyfuniad Trystan o'i lais cryf, personoliaeth gynnes a'i ddelwedd hyfryd, fe welon nhw botensial ynddo. Ac er nad yw wedi ennill cytundeb gan Decca, mae wedi cael ei wahodd i gwrdd â phenaethiaid Decca i drafod y dyfodol yn syth.

"Dwi ddim yn hollol siŵr beth sydd gan Decca mewn golwg ynghylch fy ngyrfa. Dwi am gwrdd â nhw cyn gynted ag sy'n bosib," meddai Trystan, a raddiodd mewn Cerdd a Chyfryngau ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant. Mae nawr yn astudio am radd Meistr mewn Canu yn yr Academi Frenhinol yn Llundain. Bu Trystan - sydd yn nai i Eleri Roberts, Comins-coch, yn canu mewn cyngerdd gyda Cantre'r Gwaelod yng Nghapel y Garn y llynedd.

"Dwi'n hyderus eu bod nhw am fod yn asgwrn cefn i mi tra mod i'n datblygu fy ngyrfa ganu, felly mae hi'n adeg gyffrous iawn i mi. Ro'n i wrth fy modd gyda'r newyddion gan Decca, a dwi ddim wedi siomi o gwbl oherwydd fy mod i heb gael cytundeb recordio. Doedd dim cadarnhad bod un ohonom ni i gael cytundeb - does neb yn medru derbyn un dros nos!

"Mae'n gymaint o ganmoliaeth fod cwmni mor llwyddiannus â Decca yn dangos diddordeb ynddo i. Fe fydd hi'n broses hir er mwyn iddyn nhw ddod i fy nabod yn well."

Bu'r ymgeiswyr yn cymryd rhan mewn amryw o dasgau a gweithgareddau trwy gydol y gyfres, megis sesiwn leisiol gyda'r athro canu Ian Baar, sesiwn lwyfannu gyda seren *Strictly Come Dancing* Camilla Dallerup, a pherfformiad cyhoeddus ochr yn ochr ag enillydd *X Factor*, Joe McElderry.

Fe ddaeth y gyfres at uchafbwynt pan berfformiodd y pedwar ar lwyfan Under the Bridge yn ardal Chelsea, Llundain, o flaen cynulleidfa ddethol yn ogystal â'r panel.

Bwriad Lisa yw parhau i ganu ac i ddatblygu fel cyflwynwraig ar raglen *Ddoe am Ddeg* ar S4C. Teimlai bod y rhaglen wedi rhoi hwb mawr iddi hi fel cantores, ac mae'n gobeithio perfformio mewn mwy o gyngherddau o nawr mlaen.

"Ym mhroses Llais i Gymru, dysgais pa arddull o gerddoriaeth sy'n siwtio fy llais. Dwi hefyd lot fwy hyderus ynof i fy hun ar ôl darganfod fod berchen personoliaeth dda yn rhan hanfodol yn y diwydiant cerddoriaeth."



## Cymdeithas Defaid Mynydd Cymreig Ceredigion

Cynhaliodd Cymdeithas Defaid Mynydd Cymreig Ceredigion eu cyfarfod blynyddol nos Fercher 25ain Ionawr 2012, yng nghlwb Cymdeithasol Penrhyn-coch.

'Roedd yn gyfarfod arbennig iawn, oherwydd fod ein ysgrifennydd, Mr. Gareth Evans, yn ymddeol ar ôl bod yn y swydd am bum mlynedd ar hugain. Pan ymddeolodd Gareth o fod yn swyddog da byw dros Ogledd Cymru, cytunodd i fod yn ysgrifennydd y Gymdeithas yma, ac mae wedi ein harwain ers hynny. Mae Gareth yn un ohonom ni, yn byw yn Sŵn y Ffrŵd, Bont-goch, ac wedi ei eni a'i fagu yn Llawrcwmbach, wrth droed Craig y Pistyll. Diolchodd ein cadeirydd, Mrs. Beryl Evans, Glanyrafon i Gareth am ei waith trylwyr a dymuno'n dda iddo i'r dyfodol.



Etholwyd y swyddogion canlynol am y flwyddyn 2012-2013:

Llywydd: Gwilym Jenkins, Llety'r Bugail.

Cadeirydd: Huw Davies, Llety Ifan Hen.

Is-gadeirydd: Bryn Jones, Ceiro.

Ysgrifennydd: David Nutting, Tyhen Henllys.

Trysorydd: Dafydd Jenkins, Penpompren Uchaf.

Cynrychiolwyr ar bwyllgor y Pum Sir: Y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd.

Gareth oedd ein gŵr gwadd am y noson, a chawsom hanes ein gweithgareddau yn fanwl yn ystod ei amser fel ysgrifennydd. Braf iawn oedd gweld cymaint o fugeiliaid ifanc, brwdfrydig yn y cyfarfod. Mae dyfodol y gymdeithas i weld yn llewyrchus iawn yn eu gofal am flynyddoedd. Daeth y cyfarfod i ben gyda phryd o fwyd blasus iawn wedi ei baratoi gan y clwb.

# Y TINCER

- un o bapurau bro Ceredigion | Sefydlwyd Medi 1977
ISSN 0963-925X | Rhif 346 | Chwefror 2012

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG

SWYDDOGION

**GOLYGYDD** - Ceris Gruffudd
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail
Penrhyn-coch ☎ 828017
Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD** - Iona Bailey

**CYSODYDD** - Dylunio GraffEG ☎ 832980

**CADEIRYDD -** Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**IS-GADEIRYDD -** Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno. Goginan ☎ 880228

**YSGRIFENNYDD** - Anwen Pierce
46 Bryncastell, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD** - Hedydd Cunningham, Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth SY24 5NX
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**HYSBYSEBION -** Rhodri Morgan, Maes Mieri Llandre, ☎ 828 729 rhodrimoc@yahoo.co.uk

**LLUNIAU** - Peter Henley
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER -** Anwen Pierce

**TREFNYDD GWERTHIANT A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER -** Bryn Roberts
4 Brynmeillion, Bow Street ☎ 828136

GOHEBYDDION LLEOL

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
Mrs Beti Daniel, Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH**
Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

**BOW STREET**
Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
Lynn Phillips, 1 Cae'r Odyn ☎ 820908
Anwen Pierce, 46 Bryncastell ☎ 828 337

**CAPEL BANGOR/PEN-LLWYN**
Mrs Aeronwy Lewis, Rheidol Banc
Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
Eirian Hughes, Lluest Fach ☎ 880 335; Elwyna Davies, Tyncwm ☎ 880 275; Dai Evans, Fferm Fronfraith, Comins-coch ☎ 623 660

**DÔL-Y-BONT**
Mrs Llinos Evans, Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
Mrs Margaret Rees, Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
Mrs Bethan Bebb, Penpistyll,
Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
Mrs Mair England, Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
Mrs Edwina Davies, Darren Villa
Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296

## DYDDIADUR Y TINCER

Y DYDDIAD OLAF Y BYDD GOHEBWYR LLEOL YN DERBYN DEUNYDD AR GYFER Y RHIFYN NESAF FYDD MAWRTH 1 a MAWRTH 2 I'R GOLYGYDD. DYDDIAD CYHOEDDI MAWRTH 15

**CHWEFROR 17** Nos Wener 'Noson yng nghwmni Eleri Roberts', Cymdeithas Lenyddol Y Garn yn festri'r Garn am 7.30

**CHWEFROR 21** Nos Fawrth Noson grempog yn Horeb, Penrhyn-coch am 6.00.

**CHWEFROR 21** Nos Fawrth Ynyd Noson grempog Noson Grempog yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor rhwng 7.00 — 8.00. Adloniant i ddilyn gan Efan Williams.

**CHWEFROR 25** Nos Sadwrn Noson Hwyl Ddewi yng nghwmni Parti Cut Lloi. Cawl a chacen yn Neuadd Goffa Tal-y-bont am 7.00. Tocynnau: £8.00 i oedolion - £3 i blant ysgol. Rhaid archebu tocyn ymlaen llaw: (01970) 832 448

**CHWEFROR 27** Nos Lun Cyfarfod cangen Bro Ddafydd Plaid Cymru Dr Owen Roberts yn sgwrsio ar etholiadau diweddar yng Ngheredigion yn Festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.30.

**CHWEFROR 28** Nos Fawrth Cwmni'r Fran Wen yn cyflwyno 'Fala surion' (addasiad Catrin Dafydd a Manon Eames) yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth

**MAWRTH 2** Nos Wener Noson cawl a chân yng Nghlwb Cymdeithasol Penrhyn-coch am 6.30 Trefnir gan Gylch Meithrin Trefeurig

**MAWRTH 2** Nos Wener Cinio Gŵyl Ddewi Cymdeithas Gymraeg y Borth yng Nghlwb Golff Y Borth; bwyta am 7.30p.m.Gwesteion: Ann a Gwilym Fychan, Abercegir

**MAWRTH 9-10** Nosweithiau Gwener a Sadwrn Sherman Cymru a Theatr Cenedlaethol Cymru mewn cydweithrediad â Galeri, Caernarfon yn cyflwyno Sgint' (Bethan Marlow) yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth am 7.30

**MAWRTH 16** Nos Wener 'Lluniau Llachar' — gwneud y gorau o'ch camera digidol, Iestyn Hughes, Cymdeithas Lenyddol Y Garn yn festri'r Garn am 7.30

**MAWRTH 17** Nos Sadwrn Swper Gŵyl Ddewi Cymdeithas y Penrhyn; gwraig wadd: Caryl Parry Jones. Enwau i Ceris Gruffudd (828 017) Rhoshelyg@btinternet.com

## EISTEDDFODAU YR URDD CEREDIGION 2012

**Cylch Aberystwyth**
07/03/12 Eisteddfod Offerynnol Cynradd ac Uwchradd — Ysgol Gyfun Pen-glais
Uwchradd 9.15yb Cynradd 1.15yp
08/03/12 Rhagbrofion Cynradd — Ysgolion lleol — 9.00yb
(Llefaru yn Ysgol Gyfun Penweddig)
(Canu Unigol yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth)
(Llefaru ail-iaith cynradd yn Ysgol Gynradd Plascrug)
08/03/12 Eisteddfod Uwchradd — Ysgol Gyfun Penweddig 1.30yp
(Llefaru yn Ysgol Gyfun Penweddig)
(Canu Unigol yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth)
(Llefaru ail-iaith cynradd yn Ysgol Gynradd Plascrug)
09/03/12 Eisteddfod Ddawns Cynradd ac Uwchradd — Neuadd Fawr Aberystwyth
Uwchradd 10.15yb Cynradd 11.30yp
09/03/12 Eisteddfod Cynradd — Neuadd Fawr Aberystwyth — 2.00yp

**Rhanbarth**
27/02/12 Celf a Chrefft Ceredigion — Gwersyll yr Urdd Llangrannog — Beirniadu am 4.30yp
17/03/12 Eisteddfod Rhanbarth Cynradd Ceredigion — Pafiliwn Pontrhydfendigaid — 9.00yb
21/03/12 Eisteddfod Ddawns ac Aelwydydd Rhanbarth — Pafiliwn Pontrhydfendigaid
Dawns Cynradd 12.30yb
Dawns Uwchradd 3.30yp
Aelwydydd 6.00yh
23/03/12 Eisteddfod Rhanbarth Uwchradd Ceredigion — Pafiliwn Pontrhydfendigaid — 9.15yb

Cyhoeddir *y Tincer* yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

**Telerau hysbysebu**
Tudalen lawn (35 x 22 cm) £100
Hanner tudalen £60
Chwarter tudalen £30
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn - £40 y flwyddyn (10 rhifyn - misol o Fedi i Fehefin); mwy na 6 mis + £4 y mis , llai na 6 mis - £6 y mis. Cysyllter â Rhodri Morgan os am hysbysebu.

# O'r Cynulliad Elin Jones AC

Un o fy mhryderon ar hyn o bryd yw Canolfan Ddydd Aberystwyth. Rydw i am weld y cyfleuster gorau posib ar gyfer henoed Gogledd Ceredigion ac fe wnes i fynychu cyfarfod yn ddiweddar gyda'r grŵp sy'n ymgyrchu i gadw'r Canolfan Ddydd bresennol yn y dref. Mae'n fwriad adleoli'r gwasanaeth i Neuadd y Dref unwaith fydd y llyfrgell yn agor yno ac mae yna bryderon ynghylch am ba mor addas fydd y safle newydd yma. Mi fydd y Ganolfan Ddydd presennol yn cael ei dymchwel er mwyn gwneud lle i'r datblygiad ar y safle Dan Dre, felly rwy'n annog ymgyrchwyr, y Cyngor Sir a'r datblygwyr i barhau i drafod er mwyn datrys y pryderon ynghylch adleoli'r gwasanaeth.

Rwy'n siomedig iawn i glywed am benderfyniad Llywodraeth Cymru i werthu fferm Pwllpeiran yng Nghwmystwyth. Mae gwerthu Pwllpeiran yn golygu y bydd Cymru yn colli ei hunig fferm ymchwil sydd yn eiddo i'r cyhoedd. Ar ôl codi'r mater gyda'r Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth pan godwyd cwestiynau am ddyfodol y stad yn gyntaf, fe dderbyniais lythyr ganddo yn ddiweddar yn cadarnhau ei fod yn bwriadu gwerthu'r tir bob yn dipyn o gwmpas hydref 2012. Rwyf hefyd yn ymwybodol bod y staff sy'n cael eu cyflogi ym Mhwllpeiran ar hyn o bryd yn poeni am eu dyfodol ac rwyf hefyd wedi bod yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i sicrhau eu bod yn derbyn y gefnogaeth angenrheidol dros y misoedd nesaf.

Yn olaf, mae'n siwr bydd nifer ohonoch yn ymwybodol bod Plaid Cymru wedi cychwyn ar y broses o ethol arweinydd newydd yn dilyn cyhoeddiad Ieuan Wyn Jones AC y bydd yn rhoi'r gorau i'w swydd ym mis Ionawr. Rwyf innau wedi rhoi fy enw ymlaen ar gyfer y swydd a dros yr wythnosau nesaf fe fyddaf yn cyflwyno fy ngweledigaeth ar gyfer dyfodol y Blaid a Chymru. Beth bynnag fo'r canlyniad ar y 15fed o Fawrth, bydd fy ngwaith fel Aelod Cynulliad Ceredigion yn parhau a gallwch fod yn sicr y byddaf yn rhoi 100% o' ymdrech wrth eich cynrychioli.

# 20 Mlynedd 'Nôl



Rhydian Mason, Gwynant Evans, Edwin Hughes, a Peter Davies yn meimio i un o ganeuon Hogia Llandegai
Llun: Hugh Jones O *Dincer* Chwefror 1992

# MADOG

Suliau Madog 2.00

*Chwefror*
19 Bugail (c)
26 10.00 Oedfa Gŵyl Ddewi yr Ofalaeth - Capel y Garn

*Mawrth*
4 John Gwilym Jones
11 Bugail
18 Bugail
25 Aled Lewis Evans

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Sioned a Llywelyn Evans, Rhydyceir. ar enedigaeth Gruffydd Alwyn, brawd bach i Lleucu Elen, ŵyr i Alwyn a Margaret Hughes, a gor-ŵyr i Mrs. Nan Hughes, Gellinebwen. Dyma'r ail ŵyr i Mrs. Nan Hughes ei gael yn ystod y mis gan fod Tudur Ywain wedi ei eni i Meleri a Wyre Jones, yn Llangwyryfon.

### Pen blwydd priodas

Llongyfarchiadau i Aldwyth a Tegwyn Lewis, Rhos-goch a fydd yn dathlu eu Priodas Ruddem ar 26 Chwefror.

### Pen blwydd arbennig

Pen blwydd hapus i Alwyn Hughes, Gellinebwen, fydd yn dathlu ei ben blwydd yn 60 ganol Chwefror.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Dai a Sylvia Powell, Nantybwla, ar golli nai, David Armstrong, yng Nghaerdydd.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Dai Evans, Deilyn ar ei ben blwydd yn 70 ar y 1af o Fawrth, daw'r dymuniadau oddi wrth y teulu;

i Gwenno Davies, Llwyngwyddil, fydd yn 18 ar yr 22ain o Fawrth;

ac i Llŷr Jones, Felinhen, ar basio ei brawf gyrru.

Y TINCER

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer Mis Ionawr 2012

*Gwobrau Mis Rhagfyr*
**£25** (Rhif 109) Parch W J Edwards, Gwelfor, 3 Tregerddan
**£15** (Rhif 263) David James, Dolhuan, Llandre
**£10** (Rhif 48) Iwan M Jones, Dolau Gwyn, Dolau

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher y 18fed o Ionawr. Ar ol bod yn drefnydd y Cyfeillion ers Medi 1999 mae Bryn Roberts wedi rhoi y gorau i fod yn Drefnydd. Diolch iddo am ei waith trylwyr. Mae'r Cyfeillion yn dod ag incwm rheolaidd i'r papur. Y Trefnydd newydd yw Bethan Bebb a diolch iddi hithau am gymryd y gwaith.

Os am fod yn gyfaill cysylltwch â Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan. Ffôn 880 228

**Y Tincer ar dâp** - Mae modd cael y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Cysylltwch â Rhiain Lewis, Glynllifon, 17 Heol Alun, Aberystwyth, SY23 3BB (☎ 612 984)

**Camera'r Tincer** - Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

# GOGINAN

### Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Lee Evans, Gwarllan, sydd wedi derbyn llawdriniaeth ar ei gefn yn Ysbyty Treforus yn ddiweddar.

### Diolchiadau

Hoffai'r Parchg Ifan Mason Davies, Coed Rhiwfelen, ddiolch o galon i'r amryw wnaeth gyfrannu pan werthwyd oen mewn arwerthiant yn Gelli Angharad. Roedd y pres yn mynd at Apêl Ail Fyngalo Plas Lluest. Llynedd agorwyd yn swyddogol y byngalo cyntaf fel cartref i rai o drigolion Plas Lluest sydd erbyn hyn yn gallu mwynhau mesur o annibyniaeth. Mawr oedd eu balchder a'u llawenydd yn dangos eu cartref pwrpasol newydd i'r cyhoedd ar ddiwrnod yr agoriad swyddogol. Y bwriad yw adeiladu ail fyngalo tebyg pan ddaw'r cyllid i law ac mae pob cyfraniad yn werthfawr i'r diben hwn.

Diolch hefyd eleni eto i Iris Richards, Brodawel, a Mair Jones, Coedlan am brynu y nwyddau ac i Carol Jones, Is y Coed, a Gareth Jones, Coedlan am eu dosbarthu i henoed ardal Goginan. Mae'r derbynwyr yn ddiolchgar iawn

# DÔL Y BONT

### Croeso

Croeso i Tom a Raksu Bartlett sydd wedi symud i fyw i Tanrallt - gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein plith.

### Pen blwydd arbennig

Pen blwydd hapus iawn i Meirion Lewis, Cysgod y Gwynt, ar ei ben blwydd yn 60 oed ganol mis Chwefror.

# TREFEURIG




Llun: Arvid Parry Jones

### Cysylltiad lleol

Betty Bates (Prescott gynt) a'i gŵr Phil yn trosglwyddo siec am £1,300 ar ran y teulu am y gofal a gafodd ei chwaer Brenda Cox tra yn yr Uned Gofal Dwys ym Mron-glais. Daeth Brenda (Prescott) fel efaciwi i Gwmisa at y teulu Mason yn y pedwardegau. Yn fuan wedyn daeth ei mam a'r teulu o Lerpwl a buont yn byw yn Delfan am rhai blynyddoedd. Fe gadwon nhw gysylltiad â Lerpwl ond Pen-bont Rhydybeddau oedd eu cartre! Ganwyd Betty a'i brodyr Terry a David yn y pentref ac aethant i gyd yn ddisgyblion i Ysgol Trefeurig. Mae Brenda Cox bellach yn cryfhau yn Ysbyty Tregaron. Mae Bronglais yn gobeithio gallu prynu gwely arbenigol ar gyfer yr Uned.

Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion
i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd

Chwilio am ofal plant?
Eisiau gwybod sut i fod yn ofalwr/wraig plant?
Chwilio am weithgareddau plant a phobl ifanc, eisiau mwy o wybodaeth.

Cysylltwch â ni am fanylion pellach

Ffôn
01545 574187
E-bost
cis@ceredigion.gov.uk
Gwefan
http://cis.ceredigion.gov.uk
Neuadd Cyngor Ceredigion
Swyddfeydd Cyngor Sir,
Penmorfa,
Aberaeron,
Ceredigion,
SA46 0PA

MUDIAD YSGOLION MEITHRIN
Cylch Meithrin Rhydypennau
Addysg cyfrwng Cymraeg i blant 2½ oed. Bob Bore Llun, Mawrth a Mercher yn Ysgol Rhydypennau. 9.00am -12.00pm yn ystod y tymor ysgol. £6 sesiwn. I wybod mwy cysylltwch ag arweinyddes y Cylch, Sue Davies ar 820065.
Ti a Fi Llandre
Cyfle arbennig i chi chwarae a chymdeithasu gyda'ch plant. Bob bore Gwener, 9.30am – 11.30am yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre. £1.50 y teulu gan gynnwys paned a bwyd bore i'r plant.

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
Ar agor
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
papurau dyddiol a'r Sul
llyfrgell fideo
cardiau cyfarch
siop drwyddedig
FFÔN: 828312

RHODRI JONES
Brici a chontractiwr adeiladu
07815 121 238
Gwaith cerrig
Adeiladu o'r newydd
Estyniadau Patios
Waliau gardd
Llandre Bow Street

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI
A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn (01970) 820 111

# LLANDRE

### Merched Y Wawr Llanfihangel Genau'r-glyn

Pnawn dydd Llun, 16 Ionawr, teithiodd 12 ohonom i Fachynlleth i ymweld â Chanolfan Owain Glyndŵr. Croesawyd ni gan Mr Henry Evans ac eglurodd ef gefndir yr Amgueddfa a'r broses a fu i'w thrawsnewid a'r ail agor yn ystod 2011. Yna cawsom gyfle i grwydro o gwmpas yr Arddangosfa a chael cip ar ad-gynhyrchiadau o 'Lythyr Pennal' a chleddyf Glyndŵr a Murlun Urquhard. O'r Arddangosfa aethpwyd i'r Plas ym Machynlleth i fwynhau paned a chacen.

### Genedigaeth

Ganwyd Jack Llywelyn Shepard i Elen a Matt Shepard ar Ionawr 7fed 2012, ŵyr i Owen a Gwenno Watkin, Maes Henllan, a gor-wyr i Buddug Thomas, Afallen Deg, ac Anne Watkin, Taliesin.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â May Davies a'r teulu ar farwolaeth chwaer-yng-nghyfraith May yn Nhregaron.

â Diana a Huw Ceiriog, Nantymynydd, ar farwolaeth ewythr Diana yn Llandeilo hefyd â Siwan ac Endaf Griffiths a Megan, Coed y Glyn, ar farwolaeth mam-gu Siwan ym Machynlleth.

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Meirion Davies, Dolawel, Lôn Glanfred, a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar.

### Dymuniadau gorau

Pen-blwydd hapus iawn i Efa Mared Edwards yn 18 oed ar y 7fed o Chwefror. Pob hwyl gyda'r dathlu! A phen blwydd hapus i'w mam hefyd oedd yn dathlu y diwrnod wedyn!

Pob hwyl hefyd i Dylan Huw Edwards sy'n mynd i berfformio mewn premiere byd o waith newydd Karl Jenkins, Songs of the Earth, yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd, ar y 3ydd o Fawrth. Bydd y cyfansoddwr ei hun yn arwain Cerddorfa'r BBC, Corws y BBC ac aelodau o Gorau Ysgolion Siroedd Cymru. Bydd y cyngerdd yn cael ei darlledu dros y byd.

### Treftadaeth Llandre

Chwefror 23 - Hanes yr Hen Goleg, Aberystwyth, Elgan Davies. Cynhelir cyfarfodydd yn Ysgoldy Bethlehem Llandre nos Iau olaf y mis gan gychwyn am 7.30 yh. Aelodau (£5 tanysgrifiad) - mynediad am ddim. £2 y cyfarfod i bawb arall.

### Croeso gartref

Croeso adref i Gruffydd Griffiths, Ffosygrafel, ar ôl cyfnod hir yn Ysbyty Bron-glais/



## CREFYDD Y TU ÔL I SGRIN –
### yw'r neges yn y llun

Mae darlun olew gwreiddiol o gapel Bethlehem yn Llandre wedi ei gyflwyno fel rhodd i'r capel ac erbyn mae'r llun yn hongian ar fur yr adeilad nid yn unig i roi lliw i'r lle ond mae yno hefyd i ddweud rhywbeth am ein hagwedd ni at grefydd y dyddiau hyn. Rhoddwyd sylw eisoes i'r darlun o Fethlehem o waith Wynne Melville Jones ar Dechrau Canu Dechrau Canmol ar S4C ac yn ôl Wyn Mel y capel bach yw'r cartref naturiol i'r llun.

"Er mod i'n gyfarwydd iawn â Bethlehem, pan es i ati i'w ddarlunio yr hyn a ddaliodd fy llygaid oedd bod y capel bach yn cuddio y tu ôl i ddwy goeden bythwyrdd, fel petai'n cysgodi y tu ôl i sgrin, a hynny'n ei gwneud hi'n anodd i'r byd y tu fas i weld y tu mewn. Mae'r neges yn y llun yn codi cwestiwn ynglŷn â'n hagwedd ni at ein crefydd y dyddiau hyn.

"Ar ochr bositif, o sylwi yn fanylach ar y darlun, mae golau yn disgleirio trwy'r gwydr sy'n dangos bod yno fywyd o hyd, a bod Bethlehem yn ogystal a bod yn addoldy, wedi tyfu'n organig i fod yn ganolfan brysur eithriadol i weithgareddau'r pentref"meddai.

Ar noson oer o aeaf roedd Bethlehem dan ei sang a llawer o bobol yr ardal wedi dod ynghŷd ar gyfer cyflwyno'r llun ac hefyd i fwynhau arddangosfa o waith wyth o artistiaid a ffotograffwyr lleol. Roedd yn gyfle unigryw i fwynhau gwaith creadigol gan Tegwyn Jones, Bow Street; Dilwyn Jones, Tal-y-bont; Erddyn James, Taigwynion; Sarah-Jane a Phil Jones, Llandre; Iestyn Hughes, Pen-y-garn yn ogystal a Eirlys Jones a rhai o luniau Wyn Mel. Roedd hefyd cyfle i weld rhai o greiriau Bethlehem o eiddo Gwenda James, Taigwynion a Gaenor Hall, Dolau.



Cofiwch anfon eich newyddion neu gyfarchion i'r rhifyn nesaf at Mair England, rhif ffôn: 01970 828693; e-bost: mairllo@hotmail.co.uk

# PENRHYN-COCH

**Suliau Chwe - Maw**
Horeb
Gweler www.trefeurig.org/cymdeithasau-horeb.php

*Chwefror*
19 2.30 Oedfa bregeth: Gweinidog
26 10.30 Oedfa bregeth: Gweinidog

*Mawrth*
4 2.30 Oedfa gymun: Gweinidog
11 10.30 Oedfa deuluol: Gweinidog
18 2.30 Oedfa bregeth: Gweinidog
25 10.30 Oedfa bregeth Huw Roderick

### Cinio Cymunedol Penrhyn-coch

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 22 Chwefror, 14 a 28 Mawrth. Cysylltwch â Egryn Evans 828 987 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Wendy a Terry Jones, 13 Maesyrefail, ar farwolaeth mam Wendy - Katherine Anne Isaac - yn Aberystwyth ar Ionawr 13eg.

### Cylch Meithrin Trefeurig

Yr ydym ar hyn o bryd yn y caban ar safle'r ysgol tra bod y gwaith yn mynd ymlaen yn y Neuadd, ac ambell fore yr ydym yn defnyddio Neuadd yr Eglwys. Yr ydym yn ddiolchgar iawn i bawb am fod mor barod i roi cymorth i ni. Yn ddiweddar yr ydym wedi bod yn dathlu diwrnod Santes Dwynwen ac hefyd Blwyddyn Newydd Chineaidd. Yr ydym yn cael noswaith o gawl a chân yng Nglwb Penrhyn-coch ar nos Wener, 2 Mawrth am 6.30y.h.





Brownies Penrhyn-coch yn cyflwyno pensiliau a.y.b. i Sue Hughes tuag at Apêl Penpal Lynne.



Plant Horeb yn eu gwasanaeth Nadolig

### Urdd Gwragedd Sant Ioan Penrhyn-coch

Fe fu'r gwragedd yn dathlu yn eu cinio blynyddol ar Ionawr 20fed yng Nghlwb Golff Capel Bangor, yng nghwmni'r Parchedig a Mrs Ronald Williams, Pen-y-garn. Cafwyd noson hwyliog yn eu cwmni.

Nos Lun Chwefror 6ed yr optegydd Clive Williams oedd y siaradwr gwadd, ble bu yn sôn am ei waith gyda 'Volunteer Vision Aid Overseas'. Mae wedi bod yn gysylltiedig â'r mudiad ers 1985 pan ymwelodd â Thanzania. Mae'r mudiad yn gweithio yn y Trydydd Byd mewn gwledydd fel Zambia, Malaŵi a Ghana. Diolchwyd iddo am roi ei amser i ddod atom.

### Merched y Wawr Penrhyn-coch

Nos Iau, 12fed o Ionawr fe aethom i Glwb Golff Capel Bangor i fwynhau ein cinio blynyddol. Croesawodd Judith Morris, ein Llywydd ni, bawb yno ac yna traddodwyd y fendith cyn bwyd gan Mair Evans, cyn eistedd i lawr i fwyta. Yna ar ôl y cinio fe groesawodd ein Llywydd ein gŵr gwadd am y noson, sef Tegwyn Jones, drwy adrodd darn o farddoniaeth oedd wedi ei gyfansoddi yn arbennig ar gyfer y noson. Bu Tegwyn yn rhoi hanes y Morisiaid o Fôn i ni. Tri brawd a hanes gwahanol o ochr eu bywyd ond brodyr â chysylltiad arbennig rhyngddynt trwy eu hoes. Bu'r noson yn un diddorol dros ben.

Diolchwyd i Tegwyn am draddodi'r hanes mor arbennig fel arfer. Diolchwyd hefyd am y bwyd blasus dros ben a gawsom ac am y croeso cynnes. Aeth pawb tua thre wedi mwynhau yn fawr iawn.

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Gwen Griffiths, Brogynin Fach, sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

### Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad â Mr a Mrs Morris Morgan, Bwthyn a'r teulu ar golli chwaer i Morris yn Llanrhystud yn ddiweddar.
Hefyd â Egryn Evans a'r teulu ar golli ei chwaer yn ddiweddar.

### Mabwysiadu dau ymgeisydd

Cynhelir yr etholiadau ar gyfer Cyngor Ceredigion ar 3 Mai. Mae Cangen Bro Dafydd o Blaid Cymru yn gyfrifol am ddwy ward sef ward Trefeurig, sy'n cynnwys ardal Cyngor Cymuned Trefeurig, a ward Melindwr, sy'n cynnwys ardaloedd cynghorau cymuned Melindwr, Blaenrheidol a Phontarfynach. Ar hyn o bryd cynrychiolir y wardiau hyn gan Dai Suter (Trefeurig) a Rhodri Davies (Melindwr), y ddau ohonynt yn gynghorwyr swyddogol yn enw Plaid Cymru. Mae'r gangen yn falch o allu cyhoeddi fod y ddau gynghorydd yn bwriadu sefyll eto ac mae Pwyllgor Etholaeth Ceredigion o'r Blaid wedi





cadarnhau'r ddau fel ymgeiswyr swyddogol. Dywedodd Dr Owen Roberts, Cadeirydd y gangen, 'Rydyn ni'n falch iawn fod Dai a Rhodri yn bwriadu sefyll eto yn Nhrefeurig a Melindwr. Mae'r ddau wedi gweithio'n galed dros y blynyddoedd diwethaf ac wedi cadw mewn cyswllt cyson â'u hetholwyr. Rydyn ni'n hyderus y bydd yr etholwyr yn rhoi eu ffydd yn y ddau am dymor arall.'

### Tysteb i'r Parchg John Livingstone

Mae modd cyfrannu i dysteb i'r Parchg John Livingstone trwy roi eich cyfraniad i Mrs Edwina Davies, Mrs Gwyneira Marshall neu unrhyw aelod o'r Eglwys. **Dyddiad cau**: 23 Chwefror.

### Cymdeithas y Penrhyn

Ein gŵr gwadd fis Ionawr oedd Owain Schiavone, prif weithredwr Golwg 360, a phwnc ei sgwrs oedd Golwg 360 a'r Gymraeg ar-lein. Er iddo gyfeirio ato'i hun fel 'Jack of all trades', buan y gwelsom fod ganddo wybodaeth drwyadl o'i bwnc ac angerdd at ei waith.

Gwasanaeth newyddion a lansiwyd yn 2009 ac sydd wedi datblygu llawer dros y ddwy flynedd ddiwethaf yw Golwg 360. Gwefan ddeinamig sy'n cario straeon bob dydd. Yn wir, y gwasanaeth newyddion Cymraeg fwyaf poblogaidd. Erbyn hyn mae'n cyhoeddi 30 stori'n ddyddiol ac yn denu 6-7 mil ymweliad bob dydd. Mae'n rhedeg saith niwrnod yr wythnos drwy'r flwyddyn.


Rhennir y (gwasanaeth) yn sawl adran newyddion. Y pwysicaf yw Cymru. Yna, Prydain a Rhyngwladol, Chwaraeon - gan gynnwys gêmau, pêl-droed a rygbi'r prif glybiau Cymreig i gyd. Y celfyddydau - newyddion S4C, cyfrolau newydd i'r wasg, canlyniadau eisteddfodau lleol - sydd gyda llaw yn hynod o boblogaidd! Ceir elfennau ymylol, megis calendr, swyddi, busnes a sylwadau.

O ran arddull, 'dyw e ddim yn rhy stiff a thrwm. Mae'r straeon yn fyr a bachiog, a'r iaith yn ysgafn, er mwyn dargedu marchnad eang, gan gynnwys dysgwyr a phlant ysgol. Cynhwysir clipiau sain a fideo i gyfoethogi'r stori.

Y gobaith i'r dyfodol yw sefydlu gwasanaeth lleol gyda'r bobl yn creu Golwg 360 ei hunain.

# Oedfa Hel Atgofion yn Horeb

Yn ystod yr wythnos 9-13 Ionawr, fel rhan o ddathliadau pen blwydd Festri Horeb yn 80 oed a chyfle i ymuno mewn prosiect arbennig gan Rhiannon Williams, trefnwyd arddangosfa o hen luniau a chreiriau yn ymwneud â hanes y capel. Galwodd nifer o'r aelodau a chyfeillion o bell ac agos i mewn i fwynhau paned o de a chyfle i hel atgofion. Bydd cyfle i weld detholiad o'r eitemau ar y wefan cyn bo hir. Dyma flas o'r dogfennau oedd yna.




Dydd Sul 15 Ionawr cynhaliwyd oedfa arbennig i ddathlu'r achlysur ymhellach. Eirian yn holi Wendy am ei magwraeth yn Alltyblaca oedd yn rhan o'r Smotyn Du Undodol. Siaradodd Dafydd yn siarad am ei fagwraeth yng Nghasnewydd a'i gysylltiad â Chapel Llanddewi (Road Baptist Chapel); Meryl yn siarad am ei magwraeth fel Eglwyswraig yn Llanymynech cyn priodi Gweinidog Bedyddwyr. Daeth Carwen i'r llwyfan gyda llond basged o greiriau fel sbardun i'w straeon am ei magwraeth yng nghapel Darowen. Gyda'i gilydd y daeth Ceris a Susan i'r llwyfan gan gyflwyno yn eu tro ychydig o straeon am eu capeli genedigol nhw ym Mhorthmadog o enwad y Presbyteriaid — bellach mae capeli y Tabernacl a'r Garth wedi uno a rhai eraill i ffurfio Capel y Porth. Daeth Ceri a siarad am Moreia, Glanadda, Bangor (Wesleiaid), William am ei fagwraeth yn Fedyddiwr yng Nghapel Bethania, Aberteifi a Linda i siarad am fod yn Fethodist yng Nghapel Gad a'i gymharu â'r profiad o fod yn Horeb. Bu Mairwen yn darllen dwy gerdd o'i heiddo un am hanes y Festri, ac un arall am Gapel Horeb nawr.

Cyflwynodd Sandra ychydig weddïau o Camau'r Plant, a chyn yr oedfa ac yn ystod y casgliad chwaraeodd Ceris ddetholiad o 'O gaethiwed i ryddid' a berfformiwyd rhai blynyddoedd nol.

Atgofion melys iawn sydd gennyf o'n amser yn mynd i'r Ysgol Sul yn Horeb. Tybiaf i mi fynychu yno yn rheolaidd o bedair mlwydd oed, nes fy mod oddeutu un ar bymtheg. Yn ystod yr amser yna, cefais y cyfle i wisgo fyny fel nifer o gymeriadau gwahanol i berfformiadau'r Dolig (cringe cringe!), mynd ar nifer o dripiau, eistedd nifer o arholiadau, a chanu mewn llawer o gymanfaoedd. Wrth gwrs, tra'n gwneud hyn i gyd, cefais lawer o hwyl gyda'm ffrindiau, a oedd hefyd yn dod i'r Ysgol Sul.

Bum yn lwcus iawn i gael athrawon Ysgol Sul ardderchog tra fy mod yno, gan gynnwys Miss Sali Jenkins, Nia, Mr Thomas a Ceri. Dysgais lawer am yr ysgrythur gan Miss Jenkins — rwy'n cofio hi yno mewn cardigan a het gyda pin ynddo, a gwallt gwyn o dan yr het. Roeddwn yn hoff iawn o Miss Jenkins ac yn awyddus iawn i wneud yn dda yn yr arholiadau er mwyn cael clod ganddi! Roedd Nia yn llawn hwyl, yn cael pawb i ganu ac ymuno gyda ddigwyddiadau'r Ysgol Sul. Cofiaf hi'n ardderchog gyda'r plant bach a oedd yn ymuno gyda'r Ysgol Sul. Dwi'n cofio Mr Thomas yn addasu neu sgwennu nifer o wasanaethau Dolig bythgofiadwy, gan gynnwys Babushka, a ninnau'n trio dysgu'r llinellau hyd at ddiwrnod y gwasanaeth!Roedd Ceri yn cynnal rihyrsals yn aml yn yr wythnos, yn ceisio cael siap ar y gwasanaeth, a chael rhyw fath o siap arnom yn actio a chanu (dwi byth yn mynd i fod yn actor, felly roedd sialens gyda hi!). Rwy'n aml yn edrych nôl ar y lluniau o'r gwasanaethau yna a gofyn i mam sut yr oedd hi'n gallu gadael fy chwaer a finnau allan o'r tŷ wedi gwisgo fel yna, mewn rhyw wisg neu'i gilydd! Roeddwn yn nerfus iawn cyn y gwasanaethau yma, yn enwedig gan fod nifer o blant ysgol yn dod i wylio, a ninnau'n cael llawer o dynnu coes, diolch i'r gwisgoedd!

Roedd yn fraint mynd i'r Ysgol Sul yr adeg yna — roedd y Festri yn llawn sŵn a phlant, a'r athrawon yn gwneud gwaith ardderchog o gadw rheolaeth arnom i gyd! Cofiaf yn enwedig y lliain melfed coch yn cuddio'r bwrdd, a'r blychau yn cael eu defnyddio i gasglu'r casgliad bob dydd Sul. Cynhelid yr Ysgol Sul o 10.30 — 11.30 y bore, a chofiaf yn aml redeg i fyny'r ffordd ar ôl gorffen yn starfio a edrych mlaen i fwyta cinio dydd Sul mam! Hoffwn ddiolch i bawb a wnaeth gyfrannu i'm amser yn yr ysgol Sul — amser sydd wedi fy ngadael gyda chysylltiadau cryf iawn gyda'r Festri, ynghyd a'r siawns i wneud ffrindiau gyda phlant yr ardal. Diolch yn fawr!

**Cerys Humphreys**

# Y BORTH

### Cymdeithas Gymraeg y Borth a'r Cylch

Elwyn Jones, Prif Weithredwr Cyngor Llyfrau Cymru, oedd ein gŵr gwadd yng nghyfarfod mis Ionawr. Cawsom hanes y Cyngor Llyfrau o'i gychwyn 50 mlynedd yn ôl hyd at heddiw. Diddorol iawn oedd gwrando ar y newidiadau sydd wedi digwydd yn y maes mewn hanner can mlynedd. Diolchwyd yn gynnes iawn i Elwyn a dymunwyd yn dda iddo yn ei swydd gan ein Llywydd, Mr. John Hughes. Paratowyd paned i gloi'r cyfarfod gan Eryl Evans a Gwyneth Evans.

### Grady yn ennill eto

Enillodd Grady Hassan gystadleuaeth ranbarthol De Cymru yn y Coleg Cerdd a Drama ar Ionawr 21 ac o ganlyniad bydd yn mynd ymlaen i'r rownd gyn-derfynol ar gyfer enillwyr De Cymru a nifer o ranbarthau De Orllewin Lloegr sydd i'w chynnal yn Cheltenham ar Fawrth 4ydd. Bydd yr enillydd fan honno'n mynd ymlaen i'r rownd derfynol a gynhelir yn Bournemouth yn ystod cynhadledd flynyddol Rotary ym mis Ebrill.

Roedd yn brofiad hollol wych cael mynd i Lundain a siarad â Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Cheryl Gillan. Fe gawsom ni'r cyfle i ofyn cwestiynau pwysig iddi a chael atebion da iawn. Roeddem ni i gyd yn synnu nad oedd hi'n sylweddoli fod problemau mawr yn ein hwynebu ni fel siaradwyr Cymraeg heddiw. Yna fe gawsom ni'r cyfle i fynd i dynnu llun y tu allan i 10, Stryd Downing, oedd yn hollol wefreiddiol am ei fod yn stryd mor enwog ag roeddem ni'n hynod lwcus i gael y gwahoddiad. Wedi hynny, fe ymwelom ni â'r Arglwydd Wigley yn Nhŷ'r Arglwyddi, ac yna fe gawsom ni ein tywys o amgylch yr adeilad gwych. Roedd hyn yn gyfle euraidd arall. Roedd y profiad o fod ar y daith yn un y byddaf yn siwr o drysori am byth; mae wedi bod yn fraint i mi gael bod yn rhan ohono.





Aelodau'r Urdd (Rhiannon Hincks, Ysgol Penweddig; Sian Elin Williams, Ysgol Llambed; Sioned Evans, Ysgol Bro Myrddin ac Efa Dafydd a Martha Grug Rhys, Ysgol Maes yr Yrfa), oll yn aelodau Fforwm Ieuenctid Myrddin a Cheredigion, gyda Cheryl Gillan, Ysgrifennydd Gwladol Cymru a David Jones AS yn Stryd Downing.

Ar Ionawr 23 bu rhai o aelodau'r Urdd - (Rhiannon Hincks, Ysgol Penweddig; Sian Elin Williams, Ysgol Llambed; Sioned Evans, Ysgol Bro Myrddin ac Efa Dafydd a Martha Grug Rhys, Ysgol Maes yr Yrfa), oll yn aelodau Fforwm Ieuenctid Myrddin a Cheredigion,ar ymweliad a 10 Stryd Downing. Gweli hwy yma gyda Cheryl Gillan, Ysgrifennydd Gwladol Cymru a David Jones AS. Downing.

Yn ôl Rhiannon, o'r Borth "Roedd yn brofiad hollol wych cael mynd i Lundain a siarad â Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Cheryl Gillan. Fe gawsom ni'r cyfle i ofyn cwestiynau pwysig iddi a chael atebion da iawn. Roeddem ni i gyd yn synnu nad oedd hi'n sylweddoli fod problemau mawr yn ein hwynebu ni fel siaradwyr Cymraeg heddiw. Yna fe gawsom ni'r cyfle i fynd i dynnu llun y tu allan i 10, Stryd Downing, oedd yn hollol wefreiddiol am ei fod yn stryd mor enwog ag roeddem ni'n hynod lwcus i gael y gwahoddiad. Wedi hynny, fe ymwelom ni â'r Arglwydd Wigley yn Nhŷ'r Arglwyddi, ac yna fe gawsom ni ein tywys o amgylch yr adeilad gwych. Roedd hyn yn gyfle euraidd arall. Roedd y profiad o fod ar y daith yn un y byddaf yn siwr o drysori am byth; mae wedi bod yn fraint i mi gael bod yn rhan ohono."

**Bydd Y Morglawdd yn agor yn swyddogol ar y llanw isel ar yr 8fed o Fawrth!**

# DOLAU

### Dymuniadau gorau

Dymuniadau gorau i Howard Williams, Sŵn y Nant, sydd wedi cael triniaeth yn Ysbyty Bryste yn ddiweddar.

### Ŵyr arall

Llongyfarchiadau mawr i Carys Davies, Glyndwr, sydd wedi dod yn nain unwaith eto. Ganwyd Owain Llewelyn yng Nghaerdydd ychydig cyn y Nadolig, brawd bach i Mared a Rhys. Pawb wrth eu bodd.

### Marie Curie

Fe gasglwyd £106.52 yn ardal y Dolau mis Ionawr. Diolch i bawb a gyfrannodd.

# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

### Cydymdeimlad

Unwaith eto 'rydym yn cydymdeimlo â John Lewis, Dolgamlyn, ar farwolaeth ei gyfnither yn Llanidloes, a hefyd â Ceredig Wililams, Ty'n Wern, ar farwolaeth ei frawd ar ôl gwaeledd hir.

### Urdd y Benywod

Cynhaliwyd ein cinio blynyddol yng Ngwesty y Farmers yn Llanfihangel-y-Creuddyn.

Cafwyd noson hyfryd iawn gyda nifer dda o aelodau a ffrindiau yn bresennol.

## Dewch i rasio!

Efallai fod gan ddarllenwyr *y Tincer* ddiddordeb yn ymuno mewn taith i'r Iwerddon a Llydaw i ddysgu am ddwy râs a gynhelir yno eleni i godi arian, ymwybyddiaeth a hyder yn yr ieithoedd cynhenid.

Cynhelir An Rith (www.anrith.ie) rhwng 8 - 17 mis Mawrth. Bydd y râs relay yn cychwyn yn Donegal gan orffen yn Ynysoedd yr Aran gan wneud siap cryman drwy Belffast a Dulyn. Cynhelir Ar Redadeg yn Llydaw (www.ar-redadeg.org) rhwng 12 - 19 mis Mai, gan redeg 1,500km gychwyn yn Brest a gorffen yn Douarnanez. Bydd miloedd o bobl, teuluoedd, clybiau, busnesau ac ysgolion yn talu i redeg kilomedr yn y rasys 'relay' hyn gyda'r elw'n cael ei rannu ymysg cymdeithasau sy'n hyrwyddo'r ieithoedd yno. Mae degau o filoedd yn rhedeg a chymryd rhan yn Iwerddon a'r Llydaw — mae cannoedd o filoedd yn cymryd rhan yn râs y Korrika yng Ngwlad y Basg.

Pa ffordd well o ddathlu'r Gymraeg a dangos i'n hunain ac eraill fod miloedd yn ei chefnogi a'i harddel na chynnal râs relay 24 awr di-stop debyg ar draws Cymru hefyd? Bydd Sion Jobbins — sy'n byw dros dro yn y Borth - yn trefnu mynd i'r An Rith ar y penwythnos cyntaf (9 - 12 mis Mawrth) pan fydd yn teithio drwy Ogledd Iwerddon. Oherwydd fod y Chwe Sir yn rhannu'r un deddfau â Chymru, bydd yn ddefnyddiol dysgu ganddynt hwy ar sut mae cynnal râs debyg yng Nghymru. Bydd sawl un yn mynychu'r daith a hoffai Sion estyn gwahoddiad agored felly i unrhyw sefydliad, unigolyn neu gymdeithas Gymreig i ymuno â ni i ddysgu mwy - a chymryd rhan - yn yr An Rith. Nid oes grant, bydd rhaid talu am eich hunain.

Mae adfer iaith yn her fawr — os gall y Basgwyr, Llydawyr a'r Gwyddelod drefnu i redeg ar draws eu gwlad i ddangos eu bod 'yna o hyd' does bosib na allwn ni hefyd. Pa ffordd well o godi hyder, ymwybyddiaeth ac arian a thynnu cefnogwyr y Gymraeg o bob cefndir a gallu at ei gilydd na chynnal râs llawn gobaith ar draws Cymru?

Gellwch gysylltu â Sion ar: sion.jobbins@gmail.com os hoffech ragor o wybodaeth am y daith, ceir hefyd fideo fer ar YouTube ar y syniad - teipiwch 'Rhedadeg'.

# Artist y mis

**Mikey Bailey**
Ynysyfallon, Dôlwen, y Borth.(Mae Mikey fel ei wraig Grace yn siarad Cymraeg ac maent yn gefnogwyr mawr o gryfderau'r pentre).


**Pam symud i'r Borth?**
I ddilyn fy nghariad ar y pryd, Grace, a oedd wedi graddio yn Aber a chartrefu yma; a'r rheswm wy'n dal i fyw 'ma yw'r gymdeithas a lliw y Borth. Nid yn unig y machlud a'r wawr a'r môr ond lliw y bobl, sydd fel yr elfennau yn wyllt ac yn dawel a phob un ohonynt ag egni arbennig.

**Hyfforddiant?**
Dim byd fel coleg celf. Yn hytrach, dylanwadau cynnar fel rhodd Mam-gu o gamera, ysgol Brynteg, lle dysgais fod y rhan fwyaf o bethau'n bosib ond i ddyn weithio'n galed. Yr ystafell gelf oedd canol fy mywyd a Tom Hutchinson, fy athro celf oedd fy ysbrydoliaeth. Y cryf a'r syml oedd ei bleser; gonestrwydd ac angerdd oedd ei neges. Ers gadael ysgol, mae na dri dylanwad mawr-J Hewlett, cartŵnydd sci-fi a oedd yn gallu neud i fi wenu, yr ail- gwaith teledu Hanna Barbara- dysgais fod sawl haen i gartŵn da, yr amlwg a'r pethau cudd h.y. dyfnder a delwedd. A'r olaf Sydney Nolan, wedi i fi dreulio chwe mis yn Awstralia-hoffais liwiau'r pridd a blas y cyntefig yn ei waith. A'r olaf yw Slinc Achu, sy'n arlunudd y stryd, nid mor enwog a Bansky, ond i fi yr un mor dalentog.

**Pwy yw eich hoff artistiaid?**
Un yn 'Gog' a'r llall yn 'Up North', sef Kyffin Williams a Lowry, y ddau yn gryf ac yn dywyllodrus syml, ac yn llawn o'r nodweddion a oedd yn bwysig i'm hathro celf ym Mrynteg.

**Ymhlith popeth rych chi wedi ei greu, pa un yw eich fferfyn?**
Wel, nid paent na phensil, ond ffotograff camera ddigidol. Roeddwn dan rhyw hen pier wrth ymyl y môr a oedd yn ei anterth yn oes Fictoria, bellach yn adfael, wedi ei losgi a'i daro'n ddi-drugaredd gan stormydd, ond roedd yn dal yn fyw i mi ac yn llawn o sŵn dioddef a henaint ac mae'r llun du a gwyn gymerais yn dala urddas yr hen bier.

O.N. Hoffwn ddiolch i Oriel Adrifft y Borth am drefnu fy arddangosfa gyntaf, ac rwy'n chuffed iawn i ddweud fod y rhan fwyaf o'r gwaith wedi'i ei werthu.



# Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 17 Ionawr 2012, yn hen Ysgol Trefeurig gyda'r Cadeirydd, Dafydd Sheppard, yn y gadair. Roedd saith aelod arall yn bresennol ynghyd â'r clerc a'r Cynghorydd Sir Dai Suter. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Daniel Jones, Kari Walker a Tegwyn Lewis.

Nododd un o'r aelodau fod Daniel Jones wedi mynegi anfodlonrwydd fod cyfarfod mis Tachwedd wedi mynd yn ei flaen o ystyried y cymysgu ynglŷn â'r dyddiad. Eglurodd y Cadeirydd fod yr aelodau oedd yn bresennol wedi penderfynu cynnal y cyfarfod gan fod cworwm yn bresennol er nad oedd pawb wedi cael hysbysiad o'r cyfarfod.

Roedd Cyngor Ceredigion wedi rhoi gwybod na fyddent yn fodlon darparu bin cŵn arall i fod wrth ymyl Ysgol Penrhyn-coch gan fod un ar y safle yn barod. Roedd y Clerc wedi trafod y mater o drin y sedd yn yr arhosfan bysiau ger y Post gyda'r Cyngor Sir. Gan mai eiddo'r Cyngor Cymuned oedd yr arhosfan, y Cyngor Cymuned oedd yn gyfrifol am ei drin. Penderfynwyd holi am brisiau yn ddiymdroi. Penderfynwyd holi saer i archwilio hysbysfyrddau'r Cyngor i weld pa rai oedd angen eu hymgeleddu.

Cafwyd adroddiad llawn gan Trefor Davies am gyfarfodydd o Grŵp Datblygu Ysgol Trefeurig a fynychwyd ganddo.

Trafodwyd archebiant y Cyngor ar gyfer 2012/13 ac, yn wyneb y sefyllfa economaidd bresennol, penderfynwyd glynu at yr un swm â'r flwyddyn bresennol sef £13,000. Penderfynwyd trafod y ceisiadau am gymorth ariannol gan y Cyngor yng nghyfarfod mis Chwefror.

Cafwyd gwybod am y penderfyniadau cynllunio canlynol oddi wrth y Cyngor Sir: cael gwared â stafell ddysgu dros dro a chodi caban pren yn ei le ar safle Ysgol Penrhyn-coch — caniatawyd; codi adeilad amaethyddol ar dir oddi ar ffordd y Garth — gwrthodwyd.

Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Cyngor Sir am y materion canlynol: tynnu eu sylw unwaith eto at y ffaith fod y ffordd cyn cyrraedd Pen-bont yn rhoi yn ddrwg iawn mewn mannau a'i bod yn beryglus; yr angen i'r Cyngor Sir sicrhau fod y ffyrdd drwy'r Penrhyn ac i fyny at Ben-bont yn cael eu brwsio a'u glanhau yn rheolaidd rhag i ddail a baw gau'r cwterydd ac achosi perygl; roedd angen clirio'r cwterydd ym Mhenrhyn-coch; roedd tyllau peryglus wedi ymddangos yn y ffordd rhwng Eglwys y Penrhyn a'r Swyddfa Bost.

# BOW STREET

Suliau Chwefror - Mawrth 2012
Garn 10 a 5
www.capelygarn.org
Chwefror
19 Bugail (c)
26 Oedfa'r Ofalaeth

Mawrth
4 John Gwilym Jones
11 Bugail 10. Sion Meredith 5.
18 Bugail (c)
25 Aled Lewis Evans

Noddfa
4 Uno yn Y Garn am 10.00
11 Uno yng Nghartref Tregerddan am 3.30
18 Oedfa am 2.00. Mr Raymond Davies
25 Oedfa am 10.00. Gweinidog. Cymundeb.

## Cymorth Cristnogol

Mae ymgyrchoedd Cymorth Cristnogol yn bodoli ers sawl blwyddyn bellach yn yr ardal a'r ymateb yn foddhaol iawn ar hyd y blynyddoedd. Ond er mwyn ffurfioli'r ymdrechion fe sefydlwyd pwyllgor bach yn ddiweddar iawn i lywio trefniadau o hyn ymlaen. Ac felly fe gynhelir cyfarfod cyffredinol yn Neuadd Rhydypennau am 7 o'r gloch ar nos Fercher 22 Chwefror pryd y ceir cyfle i'r casglwyr presennol i gyfarfod â'i gilydd, ynghyd hefyd ag aelodau o'r cyhoedd a fyddai'n hoffi rhoi help llaw i'r ymgyrch casglu blynyddol o bryd i'w gilydd. Byddwn yn croesawu gŵr gwadd, Y Parchedig Tom Defis, Ysgrifennydd De Orllewin Cymru Cymorth Cristnogol i siarad am waith bydeang yr elusen a'r ymgyrchoedd blynyddol, ac mae croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod.

## Merched y Wawr Rhydypennau

Cafwyd noson gartrefol iawn yn ein cyfarfod yn y flwyddyn newydd yng nghwmni Llinos Dafis. Buodd yn sôn am ei hamser fel gwraig i aelod seneddol ym 1992. Yn y Tŷ Cyffredin, mae'n debyg, roedd mesurau diogelwch yn llym iawn a chawsom sawl enghraifft o hyn. Cafwyd stori ddoniol am y ffwdan o symud i fflat fach yn Llundain pan nad oedd modd cael y dodrefn i mewn a llawer mwy o hanesion diddorol iawn. Diolchwyd iddi gan ein llywydd, Mair Lewis. I orffen y noson cafwyd paned wedi ei pharatoi gan Marian a Gweneth ac enillydd y raffl oedd Beryl.

## Cangen Rhydypennau o Blaid Cymru

Ar nos Lun 30 Ionawr daeth criw o'r gangen at ei gilydd i drafod rhaglen o weithgareddau am y flwyddyn sydd i ddod, yn ogystal â thrafod etholiadau'r cyngor sir sydd i'w cynnal ar ddechrau mis Mai, heb anghofio, wrth gwrs, yr etholiad i ddewis arweinydd newydd y Blaid yn ystod yr wythnosau nesa. Cofiwch fod croeso cynnes i aelodau a chefnogwyr i fynychu gweithgareddau'r gangen. Os hoffech ymaelodi â'r Blaid, mae croeso i chi gysylltu ag Anwen (anwenmai@hotmail.co.uk) neu adael neges ar 01970 828337.

## Penblwydd arbennig

Bu'r 22ain a'r 23ain o Ionawr yn rhai prysur iawn i Mrs Maud Phillips wrth iddi ddathlu ei phe blwydd yn 90 mlwydd oed. Ar y dydd Sul teithiodd y teulu cyfan i lawr i'r Rhondda at Meg, chwaer Mrs Phillips, gan ei bod hithau hefyd yn naturiol yn dathlu yr un pen blwydd a hwythau'n efeilliaid. Yna ar y dydd Llun cafwyd dathliad yn Llety Ceiro. Fe gyrhaeddodd Mrs Phillips yno gan dybio mai dim ond aelodau'r teulu fyddai yno ond fe gafodd gryn sioc pan ddaeth criw o gymdogion a ffrindiau i'r golwg i'w chyfarch. Ar ôl i'r Parchg Richard Lewis ofyn bendith aeth pawb ati i fwynhau'r wledd oedd wedi ei pharatoi ar ein cyfer. Yn naturiol ddigon yr oedd yna gacen wedi ei pharatoi i ddathlu'r achlysur ac wedi i Mrs Phillips dorri'r gacen fe gafwyd araith bwrpasol gan y Parchg W J Edwards. Yn naturiol yr oedd hel atgofion a sôn am Cis yn elfen amlwg o araith W J ac yntau wedi bod yn gymydog ac yn ffrind mor dda i'r teulu yn Nhregerddan ar hyd y blynyddoedd. Yn dilyn araith W J cyflwynodd y Parchg Richard Lewis dorch o flodau i Mrs Phillips ar ran aelodau Noddfa. Wrth i brynhawn difyr iawn ddirwyn tua'i derfyn cododd Mrs Phillips ar ei thraed i ddiolch i bawb am wneud ei phen blwydd arbennig yn un mor arbennig.

## Diolch

Dymuna Maud Phillips ddiolch i bawb am y llu o gardiau, y galwadau ffôn a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phen blwydd arbennig yn ddiweddar. Cafodd bleser mawr wrth dderbyn tusw mawr o flodau o Awstralia oddi wrth Rhydian Megan, Aled a Bryn. Efallai mae'r sioc fwyaf oedd y parti a drefnwyd yn Llety Ceiro gan y teulu. Doedd ganddi ddim syniad, ac mae yn ddiolchgar hefyd i'r ffrindiau oedd yn bresennol. Diolch o galon i bawb



Dilwyn, Gwynant ac Alun yn edmygu y gacen gyda'u mam



Maud gyda'i hefaill Megan Armstrong o Tylorstown yn y Rhondda.



Kitty Evans efo Rhodri a Mirain (plant Llinos) a'r gacen.

## Mrs Kitty Evans yn 80

Gyda'r dathliadau mawr yn parhau yn Bow Street mae'n rhaid cyfeirio at y ffaith bod Mrs Kitty Evans, Tan y Foel, wedi dathlu ei phen blwydd yn 80 mlwydd oed yn ddiweddar ac wedi cael parti mawr i ddathlu'r achlysur yn nhŷ Llinos ar y



Pwyllgor Neuadd Rhydypennau yn mwynhau eu cinio Nadolig yn Llety Ceiro ym mis Rhagfyr.



Ysgol Sul Noddfa yn agor y bocsus arian.

4ydd o Chwefror. Yr oedd Llinos a'r teulu wedi paratoi gwledd ar ein cyfer ym Mlaengader ac fe gafodd y deugain ohonom ni oedd yno brynhawn i'w gofio er gwaethaf y glaw a'r gwynt oer. Croeso cynnes, digon i'w fwyta, tropyn bach i'r rhai oedd ei angen a digon o siarad a sgwrsio a thynnu coes. Yr oedd Kitty hithau wrth ei bodd ac fel brenhines yng nghanol ei theulu a'i ffrindiau a'i chymdogion. Wedi iddi dorri'r gacen fe gawsom ganddi araith bwrpasol o ddiolch a gwerthfawrogiad a geiriau pellach gan Gareth a'r Parchg Richard Lewis. Ymlaen at y 90 nawr Kitty.

## Marwolaeth

Bu farw yr Athro Gareth Howell Watts ar Ionawr 2il yn dawel yng Nghartref Nyrsio Springfield Manor, Guildford. Bu'r Athro Watts, oedd yn frodor o Graig-cefn-parc yng Nghwm Tawe yn byw yn Garn Wen pan oedd yn Athro yng Ngholeg yr Annibynwyr yn Aberystwyth. Cyn hynny bu'n weinidog yn Llanberis, y Barri a Thresalem, Aberdâr. Cydymdeimlwn â'i ferched Rhian a Bethan a'u teuluoedd.

## Ysgol Sul Noddfa

Wedi bod wrthi yn gwneud bocsus bychan addas i'w defnyddio fel cadw mi gei bu aelodau'r Ysgol Sul yn defnyddio'r bocsus i gasglu darnau arian coch, sef darnau ceiniog a dwy geiniog, oedd dros ben ganddynt yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr. Pan ddychwelwyd y bocsus i'r Ysgol Sul yn ystod mis Ionawr canfyddwyd eu bod yn llawn i'r ymylon ac yn pwyso cryn dipyn. Mae'r arian erbyn hyn wedi ei drosglwyddo i gronfa'r elusen leol Ffagl Gobaith. Diolch o galon i'r plant am eu brwdfrydedd a'u haelioni.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlir yn ddiffuant a Mair, Gareth, Lowri a Rhys, Brynawel, Penrhiw, Bow Street, ar farwolaeth cefnder i Mair yn Aberystwyth ar Ddydd Calan.

# PEN-LLWYN / CAPEL BANGOR

## Sialens Nepal

Dymuniadau da a siwrnai ddiogel i Cefin Evans, Rhiwarthen Isaf (Cwmwythig gynt), a'i ffrind Gareth Jones, Morfa, Llanrhystud. Y sialens yw teithio ar gefn beic, ym mynyddoedd yr Himalea, i godi arian i Ambiwlans Awyr Cymru. " Yr Yak Attack" yw enw'r ras, ac y mae'r ddau wedi bod yn ymarfer yn ddyfal ar ei chyfer - y ras beic mynydd uchaf ar y ddaear.

Mae deg rhan i'r ras, ac yn cynnwys reid o 400 kilomedr, gyda chyfanswm o dros 12,000m, o gynnydd pellter, uwchlaw'r môr. Bydd yr ocsigen ond 50 y cant, i gymharu ag ocsigen lefel y môr. Mae'r tywydd yn codi i 30 gradd centigrêd, dros y pedwar diwrnod cyntaf. Yna gostwng i 15 gradd o dan rewbwynt, fel bydd y beicwyr yn croesi, " Thorong La Pass" Yna mae'r tirlun yn disgyn yn arw, yna esgyn drwy dywod meddal, ac hefyd mae 'na nentydd, pontydd crôg, mwd, cwymp tir, ac yn ddieithriad , eira ! Mae cystadleuwyr y gorffennol, wedi dweud, taw dyma y peth mwyaf arswydus maent erioed wedi eu wneud. Mae Cefin yn derbyn taw dim rasio ydyw, ond artaith.

Mae'r "Yak Attack" yn amlwg yn brofiad bywyd, ond mae'n debyg, nid heb ei atgofion cofiadwy o wlad hardd. Pob hwyl Cefin a Gareth, a lwc dda i ddau feiciwr anturiaethol. Byddwn ni bentrefwyr, yn meddwl amdanoch ar Chwefror 29ain, pan byddwch yn hedfan o faes awyr Heathrow i Katmandu. Undeb Amaethwyr Cymru, yw eu noddwyr ac mae codi arian i Ambiwlans Awyr Cymru, yn elusen deilwng.

## Croeso

Croeso i Iestyn Dafydd, brawd bach newydd Morgan Jac, a gafodd ei eni ar Ionawr 24ain. Llongyfarchiadau i mam a dad, Angharad a Jonathan Lewis, Bronllys. Mae y ddwy fam-gu a thad-cu - sef Mrs Heulwen Lewis a Mr a Mrs Ieuan a Morwenna Rees, wrth eu boddau hefyd, gyda'u hŵyr bach newydd. Dymuniadau gorau iddynt bob un.

## O Awstralia

Pob dymuniad da i Rodney a Sian (merch Mrs Margaret Greenhouse) sydd yn ôl o Awstralia bell, am flwyddyn, i helpu yn Nhynllidiart.

## Cyngor Cymuned Melindwr

Os oes unrhyw unigolyn neu gymdeithas eisiau gwneud cais am gymorth ariannol o'r Cyngor eleni hoffwn eich hysbysu dylai y manylion fod gan y clerc, Meinir Evans, 22 Heol Isfoel, Llanrhystud, Aberystwyth. SY23 5BJ erbyn Mawrth 13 ar y man pellaf. Ni fydd ceisiau a dderbynnir ar ôl hyn yn medru cael eu hystyried.

## Parti gyda gwahaniaeth

Dyma Kate Williams Brynrheidol, ar ei phen blwydd yn 12 oed. Mae'n amlwg y cafodd hwyl ar y diwrnod. Ei dewis oedd cael parti o ffrindiau o bump o'r gloch hyd wyth, yn chwarae "Ysbîwyr". Roedd tad Kate wedi gosod cliwiau o amgylch y tŷ, i chwilio am y gacen pen blwydd. Cafodd y syniad ar y wê, a mwynhawyd y dair awr yn fawr, rhywbeth hollol wahanol i barti pen blwydd arferol. Pob hwyl Kate.



# Helo o Ohio




**Mae Lisa Jones, Bod Organ, Penrhyn-coch allan yn Ohio am ddwy flynedd yn astudio cwrs Perfformio gradd Meistr a hefyd i weithio fel Swyddog Cymreig yng Nghanolfan Madog i Astudiaethau Cymreig. Bydd yn gweithio ar amrywiaeth o brosiectau sy'n ymwneud â diwylliant a thraddodiadau Cymreig. Dyma'r gyntaf o gyfres o erthyglau ganddi.**

Mae bywyd yn un profiad enfawr sy'n llawn amrywiaeth boed yn adeg hwylus prifysgol neu bywyd y byd go iawn yn Llundain. Dwi wedi troi at unrhyw beth sydd am fentro cynnig unrhyw fath o brofiad newydd i mi trwy gydol fy oes, ond mae'n rhaid cael yr agwedd cywir i hyn. Never give up your dreams - dyna fy motto i.

Roedd hi'n Hydref 2011 pan gefais yr alwad yn gofyn os byse diddordeb gen i i fynd i weithio yn Ohio. Roeddwn yn gwybod y funud honno, y byddwn ymhen tri mis wedi symud yn ôl i Aberystwyth o Lundain ac yna, pacio siwtces a bwcio i hedfan allan ychydig ar ôl Nadolig. Rhagwelais hyn ac fe ddaeth yn wir. Ohio oedd yn aros ac yn galw amdanaf!

Fe gyrhaeddais bentref Rio Grande ar y 18fed o Ionawr ac roeddwn wedi cael fy ymsugno i mewn i'm gwaith yn syth. Rydwi i yn gweithio fel Swyddog Cymreig i Ganolfan Madog i Astudiaethau Cymreig ym Mhrifysgol Rio Grande, a hefyd dwi ar fin dechrau cwrs Meistr yma (MED in Intergrated Arts). Mae De Ohio yn un o'r ardaloedd yr ymfudodd Cymry iddi tua 200 o flynyddoedd yn ôl, gan lanio mewn amryw o leoliadau gan gynnwys Efrog Newydd a Pennsylvannia. Mi roedd Gallipolis (tref sy'n agos i Rio Grande) yn un ohonynt ond doeddynt ddim yn hollol hapus gyda'r ardal, felly fe aethant i gyfeiriad y Gogledd-orllewin a dod o hyd i Rio Grande ac ymgartrefu yma oherwydd fod y tirwedd yn gyfarwydd ac yn eu hatgoffa o adre. Mae yna nifer o sefydliadau'r Cymry dal yn bodoli hyd heddiw megis Little-Cardigan, Oak Hill ac wrth gwrs, mae yna lawer o Gymry hyd heddiw yn byw ac yn cyfarfod yn Columbus. Mae yna ddigonedd o wybodaeth am yr ymfudiad i Ohio yn y Llyfyrgell Genedlaethol Cymru gweler y wefan http://ohio.llgc.org.uk/ ac mi ysaf i chi i fynd i ymchwilio fwy am yr hyn ddigwyddodd i'n pobl ni - pwy a ŵyr, efallai fod ganddoch chi deulu yma!

Fe fues i allan i'r brifysgol yma nôl yn y flwyddyn 2009 fel rhan o raglen cyfnewid o Goleg Y Drindod, Caerfyrddin. Roeddwn i allan yma am oddeutu pum mis yn astudio'r gelfyddyd o berfformio ac yn dysgu am ein hanes yma ac felly roeddwn wrth fy modd pan gefais y siawns i ddod allan yma eto, nid yn unig i weithio, ond i fyfyrio hefyd. Fe wnaeth y profiad y tro diwethaf newid fy meddylfryd am fywyd, ac mae bod allan yma eto yn fraint i mi. Pwy a ŵyr lle byddaf ymhen pum mlynedd. Ar y funud, rydw i wedi bod ynghlwm â phrosiect Gwledda Dydd Gŵyl Ddewi, sy'n cael ei gynnal ar y 3ydd o Fawrth yn Oak Hill, i ddathlu dydd ein Nawddsant. Mi fydd yna fwydydd ar gael (fel yr awgryma'r teitl) yn ogystal â Chymanfa Ganu (a fydd yn cael ei harwain gennyf fi) yn ogystal â pherfformiad o amgylch y llun enwog gan Sidney Curnow Vosper, "Salem", y byddaf yn ei ysgrifennu a'i gyfarwyddo fy hun.

Rydwi yn mwynhau pob eiliad yma am ei fod yn wahanol fath o fywyd ac rwy'n gobeithio ei 'gwneud hi' yma fel actores lwyfan a'r sgrîn.

"If I make it here, I'll make it anywhere" - Frank Sinatra.

Dwi wedi dod o'r 'big city life' i bentref bach yng nghanol Canol-Ddwyrain Unol aleithiau America, ac ni allaf feddwl am unrhyw beth arall allith wneud fi'n hapusach!

Os hoffech wybod mwy am wybodaeth yr ymfudiad, neu'n syml am fywyd yn UDA gan ferch o Benrhyn-coch neu gan y Welsh-Americans yma, peidiwch a bod ofn gofyn trwy anfon e-bost ataf i ljones@rio.edu.

Edrychaf ymlaen i'r dyfodol,

Tan y tro nesaf,
Lisa


TACSI EDDIE
TACSI AR GYFER POB ACHLYSUR, A CHAR ADDAS O SAFON UCHEL I'R ANABL. BYSUS MINI AR GAEL HEFYD
FFONIWCH:
CONNIE AR 828 642
TINA AR 07790 961 226


eich gwefan leol
www.trefeurig.org
newyddion i
golygydd@trefeurig.org
William Howells, Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch, Aberystwyth SY23 3EQ

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerig mán
01970 820149
07980 687475

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
Cinio Dydd Sul
Prydau Bar
Partïon
Bwydlen Bwyty
Adloniant
Ar agor o 5:30 p.m. nosweithiau Iau a Gwener am brydiau teuluol

Iwan Jones
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

JONATHAN JAMES LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880652
07773442260
Bronllys
Capel Bangor
Aberystwyth

M THOMAS
Plymwr Lleol
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymio ac hefyd gwaith nwy
Prisiau rhesymol
07968 728470
01970 820375

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Ffôn (01970) 880627

## COLOFN MRS JONES

Pan fyddaf adref yn ystod y dydd, byddaf yn hoff iawn o wylio rhaglenni ar hen greiriau megis Bargain Hunt a Dickinson's Real Deal a byddaf yn synnu yn aml at yr hyn a ystyrir bellach yn werthfawr.

Ar un cyfnod, dodrefn a tseina o wahanol fathau ac eitemau arian a gesglid ond rwan fe delir prisiau rhyfeddol am blatiau ac ati a oedd yn gyffredin yn fy mhlentyndod, pethau y gwnaeth llawer ohonom i ffwrdd â hwy. Er enghraifft, roedd gan fy mam set, tray ar siâp deilen ac arni bot jam siap mefusen a phot marmaled siap oren, cymysgfa o liw a oedd i fod i sionci bwrdd brecwast ond a oedd yn llawer rhy liwgar, mewn difrif, i unrhyw un gyda mymryn o chwaeth. Buan yr anfonwyd hi i ffair sborion!

Ond ar Bargain Hunt, ryw ddydd, fe werthwyd un am dros ddeg a thrigain o bunnoedd...a dim ond heddiw fe dalodd rhywun dros hanner can punt am fodel siop ddillad. Fe wnaeth y model, gyda llaw, fy atgoffa i o Ifor fy mrawd a oedd wedi gwirioni ar ddynwared hogyn bach Bradley's chwedl yntau. Roedd gan fodel siop Bradleys yn Aberystwyth rhyw ddifyrrwch mawr i'r hen Ifor er na lwyddodd erioed i na esbonio'r swyn na pherswadio'r gweddill ohonom i'w ddilyn ynddi.

Ond roedd y swyn yn medru bod yn fuddiol iawn i fy Mam mewn dwy ffordd; yn gyntaf, fe wyddai yn lle byddai Ifor pe digwyddai ei golli yn nhref Aberystwyth, fe fyddai â'i drwyn yn ffenestr Bradley's! Roedd yr ail ffordd yn fwy difyr. Roedd Ifor yn blentyn aflonydd, roedd o hefyd yn hymian a chanu trwy'r dydd a pan fyddem ni eisiau llonydd rhagddo, y drefn oedd gofyn iddo ddynwared hogyn bach Bradley's - a fe safai'r hen Ifor mewn cornel yn hollol lonydd a distaw a hynny am hydoedd. Fe ddywedodd fy mam lawer gwaith wedi iddo dyfu ei bod hi'n biti mawr fod Ifor wedi tyfu trwy'r ffad erbyn iddo gyrraedd ei saith oed!

Ond i ddychwelyd at yr hen bethau.Fe fedraf ddeall pam fod pobl yn casglu pethau - mae gennyf i fy hun, bellach, rhyw bum cant o wniaduron - ond mae chwilen gasglu ambell un yn go od. Beth, meddech chi, yw apêl hen doiledau Fictorian? Neu offer diwydiannol? Neu gasglu offer pwyso? Neu hen ambarels? Sut ydech chi yn perswadio eich cymar i ganiatau lle iddynt yn y tŷ? Wrth reswm, mae'n rhaid i minnau gofio efallai y byddent hwy yn gweld casglu gwniaduron yn hobi od yn enwedig i rywun y mae rhoi botwm ar ddilledyn yn golygu cryn ymdrech.

A mae yna bobl ryfeddach. Fe welais ar Flog i ddynes oedd wedi cadw peth dal papur tŷ bach a'r gweddill rholyn oedd ynddo o doiled a ddefnyddiodd y Beatles ac un arall ar yr un rhaglen oedd wedi cadw set bren toiled Clwb y Ceidwadwyr yn Llundain pan newidwyd y bathrwm yno. A dyna i chi Lloyd George wedyn, yn cadw darn o sigâr a ysmygwyd gan y Pab. A chredwch neu beidio, mae yna arian yn y pethau hyn. Nid wyf yn cofio enw yr arlunydd yn y stori hon ond roedd wedi braslunio cartwn o ferch a'i chariad ar serviette a hithau wedi ei chadw. Ar y pryd nid oedd yr arlunydd yn enwog ond fe ddaeth yn enwog a fe werthodd hithau y serviette am filoedd, er gwaethaf breguster y cyfrwng a mai braslun yn unig oedd y llun.

Y wers, mae'n amlwg, ydi byddwch yn ofalus. Gwrthodedig heddiw yw trysor yfory yn arbennig os yw yn od neu yn anaml.Tybed nad yw hynny yn rhywbeth i gnoi cil arno cyn y spring cleaning?


CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

GWASANAETH TEIPIO
Cysylltwch â
Mrs Glenwen Morgans
Heulwen
Penrhyn-coch
Ffôn: 01970 828041
Symudol: 07515494710
Ebost: glenwen.morgans@btopenworld.com

GWASANAETH TEIPIO
CYSYLLTWCH Â
MAIR ENGLAND
PANTYGLYN
LLANDRE
CEREDIGION
SY24 5BS
01970 828693
mairllo@hotmail.com


## Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau, 26 Ionawr yn Neuadd Rhydypennau o dan lywyddiaeth y Gynghorwraig Heulwen Morgan. Siom oedd deall bod perchnogion cŵn bellach yn tueddu i gilio o lwybrau'r ffordd fawr, i raddau, a cherdded y cŵn yng Nghae Chwarae y Piod gan adael y carthion ar y lleiniau chwarae. Digwydd hyn yn aml pan fydd rhieni yn gollwng neu gasglu plant o'r ysgol gerllaw. Penderfynwyd cysylltu â Phwyllgor y Cae Chwarae er mwyn gwneud cais i weithredu Is-Ddeddf i atal cŵn yn gyfangwbl o'r maes.

Hon oedd y noson pan benderfynir ar geisiadau am roddion gan elusennau lleol. Gwnaed y sylw canlynol, os digwydd i berson ifanc o'r ardal dderbyn anrhydedd i gynrychioli ei wlad mewn unrhyw faes, bydd y Cyngor yn ystyried cyfrannu at unrhyw gostau fydd yn disgyn ar y person hynny.

Eleni penderfynwyd cyfrannu fel a ganlyn i geisiadau lleol. Ffrindiau Cartref Tegerddan £150, Y Tincer £300, Maes Chwarae Rhydypennau £500, Pwyllgor Henoed £200, Mynwent y Garn £200, Mynwent Hepziba (Clarach) £150, Clwb Hoci Bow Street £100, Cylch Meithrin Rhydypennau £100, Ysgol Rhydypennau £100, Ambiwlans Awyr Cymru £100, Neuadd Rhydypennau £1000, CAB £100, Clwb Ffermwyr Ieuanc Tal-y-bont £100, Ffagl Gobaith £100, Sioe Rhydypennau £50. Datgelodd y Cyng. Paul Hinge a'r Cyng. Vernon Jones eu diddordeb mewn gwahanol elusennau ac ni chymerasant ran yn y trafodaethau.

Dyma hefyd y cyfarfod pryd y penderfynir ar y praesept am y flwyddyn 2012-13. Sail treth y Cyngor am 2012-2013 yw £835.34. Penderfynwyd ar braesept o £15,000, trwy hynny codir treth ychydig geiniogau yn uwch na llynedd, hynny yn golygu £17.96 ar annedd yn Band D.

Yn ei adroddiad misol dywedodd y Cynghorydd Sir Paul Hinge, bod y gwaith o uwchraddio goleuadau ar ran o Ystâd Maesafallen wedi cychwyn. Hefyd ar y ffordd fawr drwy Bow Street. Dywedodd ei fod yn gwasgu ar yr asiantaethau sy'n rheoli'r rheilffordd, i brysuro'r gwaith o godi gorsaf yn Bow Street rhwng 2014-16. Anogodd y cynghorwyr a'r trigolion lleol i bresenoli pob cyfarfod i annog Bwrdd Iechyd Hywel Dda i rwystro rhagor o doriadau yn Ysbyty Bron-glais. Roedd un cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer 10 Chwefror ym Mhenparcau. Eglurodd oblygiadau praesept Awdurdod yr Heddlu sy'n galw am ragor o arian er mwyn plismona tu allan i swyddfeydd.

Adroddwyd bod y ceisiadau cynllunio canlynol wedi eu caniatáu. 1. Estyniadau yn 108 Bryncastell, 2. Estyniadau yn Lahai-Roi, Y Lôn Groes, 3. Dymchwel adeilad presennol a chodi Neuadd Gyfarfod Gristnogol y Tystion Jehofa, Clarach. Gwrthodwyd y cais am godi cyfarpar solar Parc Hamdden Glan y Môr, Clarach. Ni chafwyd ceisiadau newydd.

O dan unrhyw fater arall, daeth i sylw bod Llety Ceiro yn gwneud cais yn y wasg am gael gwerthu gwirodydd ar y safle. Gan fod Tafarn Rhydypennau gerllaw, teimlwyd bod hyn yn ddiangen. Gan fod Llety Ceiro dros y ffin ym Mhlwyf Genau'r-glyn, penderfynwyd cysylltu â'r cyngor hwnnw am eu barn.

Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd 29 Mawrth. Gobeithir codi baner newydd y Ddraig Goch ger Afallen Deg ar Ddydd Gŵyl Ddewi.



Tybed oes yna rywun o ddarllenwyr *y Tincer* yn gwybod pwy sydd yn y llun yma a dynnwyd yn Salem. Mae'r llun ar hyn o bryd ar wefan Trefeurig ond bydd yn cael ei gyhoeddi cyn hir yn y gyfrol *Salem Soldier*. Rhowch wybod i'r golygydd os oes gennych wybodaeth. Elfed Davies yw'r 5ed o'r dde. Pwy yw'r lleill? Diolch i Brian Davies am y llun.

# Salem 1932

Ganwyd Brian Davies yn Aberystwyth ym 1946; symudodd y teulu i Benrhyn-coch ym 1949 pan adeiladwyd y tai ym Maes Seilo. Roedd ei dad Elfed Davies o Salem, a'i fam Lena Davies o Aberystwyth. Roedd ganddo frawd Nigel a oedd yn 11 mis yn iau ond collwyd Nigel yn 2009 a chwaer Avril sydd yn byw yng Nghaerfyrddin. Cafodd ei addysg yn ysgol Penrhyn-coch, Ysgol Gymraeg Aberystwyth ac Ysgol Ramadeg Ardwyn cyn mynd i Goleg Addysg Dinas Caerdydd. Gadawodd Benrhyn-coch ym 1966 a dechreuodd ei yrfa fel athro; gweithiodd y rhan fwyaf o'i amser mewn Canolfannau Addysg Awyr Agored. Rhwng 1979 ac ymddeol yn 2006 bu'n bennaeth Canolfan Addysg Awyr Agored Kilvrough Manor ar Benrhyn Gŵyr ger Abertawe. Mae'n dal i fyw ym mhentref Kittle ar Benrhyn Gŵyr ond yn dychwelyd i Geredigion yn amal iawn i gerdded y mynyddoedd a physgota, trwy ddefnyddio ei camper van.


Roedd ei dad - William Elfed Davies — yn frodor o Salem; fe'i ganwyd ar 21ain Medi 1919, yr unig fab ynghanol chwe chwaer. Magwyd y plant gan eu mam Marged Ann Davies, tra roedd eu tad, John Davies, oddi cartref yn gweithio fel glowr yn Ne Cymru fel canlyniad i ddirywiad y diwydiant mwynau plwm yng Ngogledd Ceredigion. Bu farw William Elfed Davies ddeng mlynedd yn ôl, yn Ionawr 2002, ond gadawodd dair llawysgrif fanwl i Brian - ar ei gais - yn rhoi adroddiad o'i blentyndod ym mhentref Salem, ei addysg yn Nhefeurig, ac fel y dechreuodd weithio yn Aberystwyth cyn i'r rhyfel dorri allan. Mae ynddynt hefyd hanes dirdynnol, manwl ond yn llawn hiwmor o'i fywyd fel milwr ifanc, cyn dychwelyd i Salem a Phenrhyn-coch i fagu teulu.

Mae Brian wedi golygu y llawysgrifau ac ychwanegu sylwadau ei hun - ymddangosodd rhai darnau ar wefan Trefeurig - www.trefeurig.org.

Mae'r dogfennau hyn yn cynnwys disgrifiadau manwl o'i hyfforddiant yn y DU, ei hanes yn teithio mewn confoi trwy Fôr yr Iwerydd, ac ym Mrwydr Gogledd yr Affrig, ac ymlaen i'r Eidal tan iddo adael y fyddin ym 1946.

Cyhoeddir cyfrol - *Salem Soldier* gan y Lolfa yng Ngorffennaf 2012. Dylai fod yn gyfrol o ddiddordeb i rai a fagwyd ym Mhenrhyn-coch, Salem, Trefeurig, Cwmerfyn and Cwmsymlog.

## ADOLYGIAD




*Dyddiadur Dripsyn*
**Jeff Kinney**
**Rily Publications 218t. £6.99**

Mae'n anodd bod yn fachgen yn eich arddegau cynnar. Mae'r byd yn llawn merched sy'n eich anwybyddu, bwlis ysgol, rhieni sy'n camddeall popeth a brodyr sy'n eich cael chi i drwbwl. Dyw bywyd ddim yn deg!

Mae mam Greg Hefﬂey yn ei annog i gadw dyddlyfr (nid dyddiadur — dyw hwnnw ddim yn cŵl, mae'n debyg) ac mi ydyn ni'n dilyn hynt a helynt Greg a'i gydnabod trwy gydol blwyddyn ysgol. Cawn hanes yr obsesiwn â reslo sy'n gafael yn ei gyd-ddisgyblion, ei berthynas gyfnewidiol 'da'i ffrind gorau Roli a'i ymdrech i osgoi gwneud ffŵl ohono'i hun yn chwarae rhan coeden yn y cyngerdd Nadolig. Mae'r llyfr fel petai wedi ei ysgrifennu mewn llawysgrifen gyda chartwnau ar bob tudalen i ychwanegu at y naratif.

Mae'r llyfr yn llwyddo i gyfleu perspectif bachgen lle mae pethau bach yn eithriadol o bwysig, a'r pethau hynny'n gallu creu rhwystredigaeth. Mae yma hiwmor anfwriadol wrth iddo siarad yn uniongyrchol â'r darllenwyr, ac mae'r gyfrol yn symud yn gyflym trwy straeon sydd weithiau yn eithaf swreal, ond sydd yn bendant yn ein diddanu. **Cerian Arianrhod**

Adolygiad oddi ar www.gwales.com, trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru.

## O'r Wasg yn ddiweddar

**Diptych**
Cyfrol o farddoniaeth R. Gerallt Jones, yn Gymraeg ac wedi eu cyfieithu ganddo ef ei hun i'r Saesneg. Mae'r gyfrol hefyd yn cynnwys ysgrif ar broblemau cyfieithu gan R. Gerallt Jones.

Sw Gerallt Jones fu'n gyfrifol am ddwyn y gyfrol ynghyd, ysgrifennwyd y Rhagair gan yr Athro Walford Davies, ac fe geir cyflwyniad i fywyd a gwaith R. Gerallt Jones gan yr Athro Bobi Jones. Cyhoeddwyd gan Cyhoeddiadau Modern Cymreig, a'r pris yw £15.00.

GOLCHDY LLANBADARN
CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DUFET MAWR
CITS CHWARAEON
FFÔN: 01970 612 459
MOB: 07967 235 687
GERAINT JAMES

Gwasanaeth
CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com



GWASANAETH
TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
* PROSESYDD GEIRIAU *
* PRINTYDD LLIW *




Iona Bailey
Pen-y-bryn
Swyddffynnon
Ystrad Meurig
Ffôn 01974 831580

**Dawnsie Twmpath / Welsh Barn Dances**
£8.95
Awdur: Eddie Jones
Y Lolfa

Clawr Meddal
Ar gael
ISBN: 9780862432423
(0862432421)

Dyddiad cyhoeddi Ionawr 2012
Argraffiad dwyieithog o gasgliad safonol o 55 dawns werin boblogaidd Gymreig, yn cynnwys cyfarwyddiadau manwl ar y camau dawnsio ynghyd â chordiau gitâr.
Argraffiad newydd; cyhoeddwyd gyntaf yn 1987.




# Cystadleuaeth y Limrig

Diolch i'r ychydig limrgwyr a fentrodd i'r gystadleuaeth hon a osodwyd yn y Tincer diwethaf. Daeth dwsin o limrigau i law, rhai ohonynt ag enwau priod y cystadleuwyr wrthynt yn hytrach na ffugenwau. Er mwyn tegwch â phawb, gofynnais i'r Golygydd i ddileu'r enwau hyn cyn anfon eu gwaith i mi.
Pennill ysgafn wrth natur yw'r limrig, a chan amlaf nid yw limrig 'difrifol' yn taro deuddeg cystal, fel hwn a ddaeth i law:

Cyrddau y Sul heb eu cadw,
Pregeth a dynnodd fy sylw,
 Peidiwn digalonni,
 Mae Duw'n hau goleuni,
Dilyn pob trai, mae 'na lanw.

Iawn, ond hwyrach y byddai'r syniad hwn yn taro'n well mewn pennill telyn neu delyneg fer.
Y limrig delfrydol yw un ag iddo syniad gwreiddiol, un sy'n rhedeg yn esmwyth ar y glust ac yn gorffen â chlep fach annisgwyl.
Y mae gwell syniad am naws ac ysbryd y limrig gan y cystadleuydd a anfonodd hwn i mewn:

Carai Jac wylio 'athletics'
Hefyd yn hoff o chwarae trics,
 Lawr tua'r prom, medd Nest
 Aeth yn ei bants a'i vest,
Ymarfer cyn daw'r Olympics!

ond fe welir mai pur glonciog ydyw i'w ddarllen. Gellid gwella ar y ddwy linell fer fel hyn:

 Tua'r prom aeth, medd Nest
 Mewn pants ac mewn fest,

ond y mae'r odli'n ddiffygiol. Tair sillaf sydd i 'athletics' yn y llinell gyntaf, a hefyd i 'Olympics' yn y llinell olaf, a dim ond gair tair sillaf a wnâi'r tro ar ddiwedd yr ail hefyd. Achosi cam gwag yn anffodua a wna'r gair 'trics'. Syniad da i'r cystadleuydd hwn fyddai darllen rhai o limrigau'r meistri yn uchel lawer gwaith nes ymgyfarwyddo â'r patrwm.
Mae'r cystadleuydd nesaf yn limrigwr profiadol:

Roedd dyn bach yn byw yn Bont-goch
A daerai yn grochach na chroch,
 Er gwaethaf ei grychau
 A'i ben moel a'i faglau
Bod e'n iau na wal Nant-y-moch.

Biti am yr herc fach yna yn y llinell olaf, ond rhwydd iawn fyddai cael gwared arni, fel hyn:

Mai iau oedd na wal Nant-y-moch

Gwych o linell limrigol yw:

A daerai yn grochach na chroch

Yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mro Morgannwg mis Awst nesaf yw thema'r limrig hwn o'i waith:

Rhyw noson cyn 'Steddfod y Fro
Aeth Jâms yr Archdderwydd o'i go',
 Anfonodd o weddi
 Ar y Bod Mawr yn crefu
'Plîs, PLÎS ga'i oroesi hon 'to'.

Ond pam o'i go'? Onid gwyleidd-dra a weddai yn y sefyllfa weddigar hon? Ofnaf mai gofynion yr odl a barodd i'r Archdderwydd fynd o'i go' yma. Dyma limrig arall o waith yr un cystadleuydd:

Wrth deithio ryw nos tua'r Penrhyn
Daeth car mawr crand cyflym i'm canlyn,
 Bu tipyn o ras
 Ac fe deimlais gryn ias
Wrth weld bod y car yn llawn plismyn.

Da iawn, ond byddai dau ansoddair yn hytrach na thri yn hen ddigon i ddisgrifio'r car:

Daeth car mawr a chyflym i'm canlyn

A thybed na chollodd gyfle, o ystyried yr odlau 'ras' a 'ias' ar ddiwedd y ddwy linell fer? Gallai fod wedi gorffen ei limrig fel hyn, a chael odl gyrch yn y llinell olaf yn y fargen?

Bu tipyn o ras
Ac fe deimlais gryn ias
Wrth weld mai y 'glas' oedd yn dilyn.

Y limrig a'm plesiodd fwyaf yw hwn o waith 'M.J.' (yr unig un a ddefnyddiodd ffugenw, gyda llaw, er nad dyna pam y daeth i'r brig). Gwnaeth hynny am fod ei limrig yn rhedeg yn esmwyth, mae'n darlunio sefyllfa ddigri, ac mae'n gorffen yn effeithiol.

Un noson wrth fyned i'r gwely
Ca'dd Mari ryw sioc i'w rhyfeddu,
 Pwy oedd yno'n gorwedd
 Ond ei chwaer lawr o'r gogledd
A'i gŵr wrth ei hochor yn cysgu.

Efallai y byddai 'a'i gŵr wrth ei hochor yn chwyrnu' wedi ychwanegu at ddigrifwch y sefyllfa, ond mater o farn yw hynny. Rhodder y wobr i 'M.J', a diolch eto i bob un o'r cystadleuwyr.

**Tegwyn Jones.**



M.J. yw Mairwen Jones, Penrhyn-coch. Llongyfarchiadau iddi ar ennill y tocyn llyfr £20. Fe'i gwelir yma yn derbyn ei gwobr gan Huw Ffash a'i gyd-weithwyr – ar ddiwedd cyfarfod Merched y Wawr. Mwy am hynny yn Nhincer Mawrth!

# YSGOL PEN-LLWYN

### Nofwyr o fri

Llongyfarchiadau mawr i dri o nofwyr yr ysgol a fu'n llwyddiannus yng ngala'r ysgolion bach a chael y cyfle i gynrychioli'r ysgol yng Ngala'r cylch. Pwy a ŵyr, efallai y gwelwn Iestyn Watson, Alaw Evans a Morgan Kensler Joyce yn torri ambell i record yn y dyfodol. Fe aeth Iestyn ymlaen i ennill y ras rhydd 25 medr yng ngala'r cylch. Da iawn ti.

### Dathlu'r flwyddyn newydd Chineaidd

Braf oedd cael mwynhau pryd o fwyd Chineaidd i ddathlu'r flwyddyn newydd. Roedd y nwdls yn flasus iawn ac nid oedd unrhyw wastraff i'w weld yn unman.

### Cyn ddisgybl yn dychwelyd

Braf yw gallu croesawu Miss Angharad Edwards yn ôl i'r ysgol i gael ychydig o brofiad o weithio gyda'r plant. Fe gafodd brynhawn hwylus gyda phlant dosbarth un yn ymchwilio i wahanol rymoedd y tu allan yn yr heulwen.

### Sioe Bypedau

Fe fu nifer o'r plant wrthi'n creu sioe bypedau a gafodd ei ffilmio ganddynt hefyd. Dyma'r gweithgaredd cyntaf yn ein clwb ffilm a chyfryngau.

### Kerb Craft

Roedd plant a dderbyniodd hyfforddiant holl bwysig ar ddiogelwch ffordd gan wirfoddolwyr llynedd wedi derbyn rhoddion hael o fag llachar yn llawn o efitemau diddorol. Diolch eto i bob un a fu'n ymweud â'r fenter bwysig hon.

### Dilyn rhiant

Mae cyffro'n codi yn yr ysgol gan y bydd rhiant yn mynd ati i feicio yn ras yr Yak Attack yn agos i Everest cyn bo hir. Pob hwyl Cefin, mi fyddwn yn dilyn dy hanes yn ofalus.

### Ardal Allanol

Diolch i'r rhieni am gyfrannu llawer o ddeunyddiau diddorol i ardal allanol dosbarth 1. Mae'r gwahanol ddeunyddiau wedi rhoi cyfle arbennig i'r plant ymchwilio a chwarae yn anturus.

### Aled Afal

Diolch i blant dosbarth 1 a weithiodd yn galed i baratoi gwasanaeth ysgol er mwyn cyflwyno cymeriadau Llyfr Aled Afal i'r ysgol.



Rhai o'r rhoddion o Kerbcraft yn cael eu harddangos.



Ein nofwyr talentog. O'r chwith i'r dde-Morgan Kensler Joyce, Iestyn Watson a Alaw Evans.



Rhai o blant dosbarth 1 yn dangos cymeriadau Aled Afal.

COFFI BOREUOL
BYRBRYDAU POETH NEU OER
CINIO
TE PRYNHAWN
CREFFTAU AC ANRHEGION

Pennau

Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi (fel arall, ar gau ar ddydd Llun)

Siop **Treasures**, Tlysau a gemwaith (yn cynnwys dylunwyr Cymreig), scarffiau a chyfwisgoedd priodasol.

Gwasanaeth enwai tai ar lechen a llwyau caru. Deunyddiau gwnio, yn cynnwys offer DMC, Anchor, Heritage, Derwentwater ac eraill.
**Ffôn: 01970 820122**

GWASANAETH
GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS

Am bob math o waith garddio ffoniwch (01970) 820924

**Gofal Traed Aber**

Ceiropodydd / Podiatrydd cofrestredig H.P.C.
Triniaeth ar ewinedd a chyrn
Llawdriniaeth ar gasewinedd
Triniaeth / asesiad arbenigol ar draed diabetig
Gwadnau ac asesiad biomecanyddol

**TRINIAETH YN Y CARTREF AR GAEL**

Cysylltwch gyda Shân Jones neu Richard Ellison ar **01970 617269** am apwyntiad

# YSGOL RHYDYPENNAU

## Ymweliadau

Mae'r prysurdeb yn yr ysgol yn parhau gyda nifer o ymweliadau, digwyddiadau a gweithgareddau amrywiol.

## Arad Goch

Cafwyd ymweliad gan Gwmni Arad Goch ar yr 20fed o Ionawr. Y testun y tro hwn oedd cynhyrchiad o'r enw 'O Gam i Gam'; cynhyrchiad wedi ei greu yn arbennig ar gyfer plant y cyfnod sylfaen. Yn ystod y perfformiad bu'r ddau gymeriad yn cosi dychymyg y gynulleidfa ifanc, a'u annog i holi, meddwl, darganfod, rhesymu a chwilio mewn perfformiad oedd yn cyfuno nifer o elfennau hwyliog a chyffrous.

Fel arfer cafwyd perfformiadau proffesiynol a graenus iawn gan yr actorion.

## 'Bingo'

Ar yr 26ain o Ionawr, trefnodd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol noson 'Bingo' yn y neuadd. Cafwyd noson gymdeithasol dda iawn gyda llwyth o wobrau da a chacennau blasus. Yn ystod y difyrwch, codwyd swm sylweddol tuag at goffre'r ysgol.

## Pen blwydd Yr Urdd

Cynhaliwyd parti yn neuadd yr ysgol ar y 27ain o Ionawr er mwyn dathlu Pen blwydd yr Urdd yn 90 oed.

## Eglwys Llandre

Cafodd plant blwyddyn 3 a 4 gyfle i ymweld â'r Eglwys yn Llandre yn ddiweddar fel rhan o waith Addysg Grefyddol y tymor. Yno, dan ofal Mr Peter Owen Jones, treuliodd y plant fore cyfan yn arsylwi ar fannau arbennig yr Eglwys a dysgu am hanes cyffrous yr adeilad drwy'r oesoedd.

## Diwrnod ar gyfer newid

Cynhaliwyd 'Diwrnod UNICEF ar gyfer Newid' ar y 3ydd o Chwefror. Cafodd y plant wisgo dillad lliwgar ar y dydd er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r achlysur a chodwyd dros gan punt er mwyn hybu a chefnogi chwaraeon i blant Uganda.

## Adran yr Urdd

Mae gweithgareddau'r Adran yn parhau ar nosweithiau Mercher. Yn ddiweddar bu blynyddoedd 4, 5, a 6 yn mwynhau sgiliau syrcas dan ofal swyddog datblygu'r Urdd Rhydian Jenkins a chafodd blynyddoedd 1, 2 a 3 gyfle i ddathlu diwrnod Santes Dwynwen dan ofal Miss Olwen Morus.

## Gwasanaethau

Mae tri o Bregethwyr yr ardal wedi cyfrannu'n i'n gwasanaethau boreol y tymor hwn. Hoffa'r ysgol ddiolch i'r Parchedigion Richard Lewis, Wyn Morris ac Andrew Lenny am eu storïau difyr a'u geiriau doeth.

## Chwaraeon

Yn ddiweddar bu'r tîm pêl-rwyd yn cystadlu ym mhencampwriaeth yr Urdd, cylch Aberystwyth yn y ganolfan hamdden ym Mhlas-crug. Enillodd y merched sawl gêm ond collodd y tîm yn y rownd derfynol. Perfformiad ardderchog.

Cynhaliwyd gala nofio cylch Aberystwyth i'r ysgolion mawr ar y 26ain o Ionawr. Oherwydd perfformiadau gwych nifer helaeth o blant blwyddyn 3 i flwyddyn 6, aethant ymlaen i'r rownd derfynol ar y 2il o Chwefror.

## Cynrychioli Ceredigion

Llongyfarchiadau mawr i Lewis Drakeley am gynrychioli Sir Ceredigion yng ngala nofio Cenedlaethol Yr Urdd ar yr 28ain o Ionawr. Teithiodd Lewis lawr i bwll nofio 50metr y brifddinas er mwyn cystadlu yn y rownd derfynol. Da iawn wir!

## Hoci

Dyma ganlyniadau diweddar y ddau dîm hoci.
Rhydypennau A — 3; Ysgol Padarn Sant A-1.
Rhydypennau A — 1; Ysgol Llanilar A — 1.
Rhydypennau A — 5.; Ysgol Plas-crug A — 1.
Rhydypennau B — 1; Ysgol Padarn Sant B — 1.
Rhydypennau B — 1; Ysgol Llanilar B — 0.

## Clwb Cant

Mae Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol yn y broses o wahodd rhieni, athrawon a ffrindiau'r ysgol i ymaelodi â chlwb 100 am yr ail flwyddyn. Mi fydd yr aelodaeth yn parhau, fel llynedd,am flwyddyn gan ddechrau ym mis Mawrth a gorffen ym mis Rhagfyr.

Bydd hi'n angenrheidiol i bob aelod dalu tâl aelodaeth blynyddol o ddeg punt a fydd yn talu am gost pob cyfle i ennill yn ystod y cyfnod. Cyfanswm yr holl arian sef gwobrau'r flwyddyn fydd pum cant punt. Bydd yr holl elw yn mynd tuag at y CRhA ac felly tuag at yr ysgol. Mi fydd y gwobrau misol fel a ganlyn:
1af- £25 2il-£15 3ydd-£10
Os am ymuno â'r clwb cysylltwch â Delyth Morgan ar 01970 820656


Noson Bingo


Sgiliau Syrcas yn yr Adran


Dathlu pen blwydd yr Urdd


Mwynhau perfformiad gan Theatr Arad Goch


Cystadleuaeth pêl-rwyd yr Urdd

**Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau: http://www.rhydypennau.ceredgion.sch.uk**

# YSGOL PENRHYN-COCH

## Gymnasteg

Llongyfarchiadau i Seren, Sioned a Jenny ar eu campau gymnasteg yn ddiweddar. Ar ôl treulio nosweithiau di-ri ers dechrau tymor yn ymarfer a pharatoi, bu'r dair i lawr yng Nghanolfan Plas-crug yn cymryd rhan yng Nghystadleuaeth Gymnasteg Rhanbarthol yr Urdd. Fel rhan o'r gystadleuaeth, roedd disgwyl iddynt baratoi cyfres o symudiadau gymnasteg i gerddoriaeth o'u dewis ac yna'u perfformio o flaen beirniad. Ar ddiwedd y gystdleuaeth, dyfarnwyd fod y dair yn ennill y drydedd wobr. Llongyfarchiadau iddynt ar eu llwyddiant a diolch i Miss Cory am gadw llygad arnynt!

## Pêl-rwyd

Bu tîm pêl-rwyd yr ysgol yn chwarae yn nhwrnament pêl-rwyd yr Urdd, Cylch Aberystwyth yn ddiweddar. Cafwyd llawer o chwarae ac ymdrechion da gan aelodau'r tîm ond yn anffodus ni lwyddwyd i fynd drwodd i'r rownd nesaf. Da iawn i bob un am eu hymdrech ac i Miss Williams am eu hyfforddi.

## Aelod Seneddol

Braf oedd croesawu ein Haelod Seneddol Mark Williams i'r ysgol yn ddiweddar. Treuliodd amser yn sgwrsio gyda'r holl ddisgyblion ac yn sôn am ei waith. Cafwyd cyfle i ofyn nifer o gwestiynau iddo a chafwyd atebion diddorol. Yn ystod ei ymweliad, cyflwynodd dystysgrifau i'r disgyblion hynny a fu'n bresennol heb golli diwrnod trwy'r tymor diwethaf. Braf oedd gweld 17 ohonynt yn derbyn tystysgrifau. Cafodd gyfle hefyd i fwynhau cinio ysgol y diwrnod sef sglodion a physgodyn. Diolch iddo am ei amser ac am fod mor barod i sgwrsio mor naturiol gyda'r disgyblion.

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH
GWASANAETHAU DIOGELWCH
E W R
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
Ffôn: 01970 820124 Symudol: 07709505741

## Gala Nofio

Bu nifer o ddisgyblion yr ysgol yn cymryd rhan yng Ngala Nofio ysgolion yr ardal. Llwyddodd nifer i ennill drwodd i'r rownd derfynol. Llongyfarchiadau iddynt.

## Y Llyfrgell Genedlaethol

Fel rhan o waith y tymor wrth astudio hanes cyfieithu'r Beibl gan William Morgan, manteisiwyd ar y cyfle i ymweld â'r Llyfrgell Genedlaethol. Teithiodd Blynyddoedd 3 i 6 i lawr a chafwyd croeso arbennig yn ôl yr arfer gan Rhodri Morgan. Treuliwyd y prynhawn yn edrych ar arddangosfeydd amrywiol a chael cyfle i weld copi o Beibl William Morgan. Bu'n sgwrsio gyda'r disgyblion am y Beibl ac yn ateb cwestiynau amrywiol. Cyfoethogwyd gwaith y tymor gyda'r ymweliad hyn. Diolch i Rhodri am ei holl waith a'r croeso a gawsom yno.

## Parti'r Urdd

Eleni, dathlwyd pen blwydd arbennig iawn — yr Urdd yn 90 oed. Fel rhan o'r dathliadau cenedlaethol, derbyniodd pob ysgol wahoddiad i drefnu parti eu hunain. Trefnwyd parti arbennig gan yr ysgol a gwelwyd y disgyblion yn eu coch, gwyn a gwyrdd yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol megis addurno cacennau yn lliwiau'r Urdd, dysgu dawns yr Urdd, creu cardiau pen blwydd ynghyd â chwarae gêmau amrywiol. Trefnwyd y cyfan gan Mr Roberts a chafwyd llawer o hwyl gan y staff a'r plant. I ychwanegu at y cyffro, gwelwyd Craig Duggan yn cyrraedd gyda'i gamera o'r BBC. Gwelwyd rhan o'r dathliadau ar fwletin y newyddion yn ystod y noson honno.

## Seren Jenkins

Teithiodd Seren Jenkins, i lawr i Gaerfaddon yn ddiweddar i gystadlu yn rownd gyn derfynol cystadleuaeth Baithlon Ysgolion Prydain. Bu'n cystadlu yn erbyn merched eraill o flwyddyn 6 a bu'n rhaid iddi nofio 50m ynghyd â rhedeg 500m. Dyfarnwyd pwyntiau ar gyfer pob rhan a phederfynwyd ar y safleoedd terfynol drwy ystyried y pwyntiau a enillwyd. Bu'n rhaid iddi ennill drwodd i'r rownd gyn derfynol drwy nodi eu hamserau gorau ar y trac ac yn y pwll. Derbyniwyd y 220 gorau yn yr ardal. Bu Seren felly yn cystadlu yn erbyn ysgolion o Ganolbarth a De Cymru ynghyd â De Orllewin Lloegr.

Bu hyn yn gyfle arbennig iddi a llwyddodd i orffen yn y 53ydd safle. Bydd y gystadleuaeth yn cyrraedd ei huchafbwynt gyda'r Pencampwriaethau Prydeinig yn Crystal Palace ar y 25ain o Fawrth.



Rhai o ddisgyblion yr ysgol gyda Mrs Hicks a fu wrthi yn addurno cacen pen blwydd arbennig ar gyfer y parti.



Disgyblion yr ysgol (a rhai o'r staff) wrthi yn dawnsio Dawns yr Urdd ar ddiwedd y parti.




Seren Jenkins cyn iddi gychwyn ar y ras 500m yn y Biathlon yng Nghaerfaddon



Seren, Jenny a Sioned gyda'r beirniad Aled Jones ar ôl cystadlu yng nghystadleuaeth Gymnasteg yr Urdd, Ceredigion.

# YSGOL CRAIG YR WYLFA

Cymdeithas Rhieni, Ffrindiau ac Athrawon Ysgol Craig yr Wylfa 2012. Os ydych yn riant neu'n gymydog lleol, croeso i chi ymuno â ni yn ein cyfarfodydd anffurfiol er mwyn rhannu eich syniadau a helpu trefnu digwyddiadau'r ysgol.

Rydym yn falch iawn o weld Sam Trubshaw yn ôl yn yr ysgol wedi iddo dreulio cyfnod yn yr ysbyty.



Rydym eisoes yn cydweithio gyda'n ffrindiau yn ysgolion Tal-y-bont a Llangynfelyn er mwyn rhoi'r profiadau gorau posib i'n disgyblion. Ers dechrau tymor y Gwanwyn, mae Mr. Leggett a Miss......o Langynfelyn yn cyfnewid ar brynhawn dydd Mawrth er mwyn gwneud y defnydd gorau posib o'n hadnoddau a defnyddio arbenigedd staff i'r eithaf er les y disgyblion. Mae'r plant yn cymeradwyo'r syniad ac yn elwa o'r profiadau.

Cawsom ymweliad gan Mr. Michael James ar fore'r 18fed Ionawr lle bu'n diddanu'r plant gan chwarae'r piano. Cafodd pawb eu syfrdanu gyda thalent anhygoel Mr. James wrth iddo chwarae darn cyflym 'Black Key Study' gan Chopin. Mae Mr. James wedi ysgrifennu geiriau a cherddoriaeth i garol newydd ar gyfer plant yr ysgol sef 'The People of Wales'. Byddwn yn perfformio'r darn mewn gwasanaeth Gŵyl Ddewi yn yr ysgol ar Fawrth y cyntaf. Diolch yn fawr i Mr. James am ei amser.

Bu'r Frigâd Dân yn ymweld â phlant yr ysgol a'r Cylch Meithrin ar fore'r 20fed Ionawr. Daeth y swyddogion tân yn yr injan dân a chafodd y plant eistedd ynddi a chael gweld yr holl declynnau modern sydd ganddynt.

Llongyfarchiadau i Lily, Jordan, Dion, Sam D, Llŷr a Joshua am eu llwyddiant yn y gala nofio yn Aberystwyth yn ddiweddar. Bu'r plant i gyd yn llwyddiannus yn eu rasys unigol a phob un wedi cyrraedd y rownd derfynol ar yr 2il o Chwefror. Da iawn bawb!

Daeth nifer o ymwelwyr o Ganolfan Deulu y Borth i'r ysgol ar ddydd Mercher 25ain Ionawr er mwyn cymryd amser i fwynhau awyrgylch yr ysgol a'r Cylch Meithrin. Cafodd yr ymwelwyr ginio yn ein plith a chafodd y plantos bach hwyl wrth chwarae gyda'i gilydd a manteisio ar adnoddau'r ysgol. Rydym yn edrych ymlaen at groesawu pawb yn ôl cyn bo hir.

Diolch o galon i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am drefnu 'Disgo Santes Dwynwen' llwyddiannus dros ben. Bu'r plant yn dawnsio'n ddi-stop wrth ddathlu diwrnod Santes y Cariadon ar Ionawr 25ain. Diolch hefyd i'r D.J. talentog, Jo Wilcox, cyn-ddisgybl, am roi o'i hamser i helpu.



Dyma rai o ddisgyblion yr wythnos, Lauren Jones, Oliver Williams, Skye Taylor a Kelsey Hemmings yn derbyn eu tystysgrifau.



Ymweliad y Frigâd Dân



MARK HUGHES
CEIROPODYDD A PHODIATRYDD COFRESTREDIG
Meddygfa Ystwyth
Gofal ewinedd arferol
Ewinedd yn tyfu i'r byw
Cyrn a chroen caled. Verrucae
Gofal traed i rai â chlefyd siwgr
Poenau yn y traed a'r coesau
GWASANAETH YMWELD Â'R CARTREF
01970 615938

SWYDDFA'R POST
BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN



# TASG Y TINCER



Carys James

Ydech chi'n hoffi'r adeg hon o'r flwyddyn? Er bod y tywydd dal yn oer, gallwn weld fod y gwanwyn ar ei ffordd. Hwrê! Ydech chi wedi gweld ŵyn bach eto, neu wedi sylwi bod dail yn dechrau tyfu ar y coed a'r llwyni?

Diolch i bawb liwiodd y llun o Dwynwen y mis diwethaf. Roedd y gwisgoedd yn wych — yn llawn lliwiau hyfryd. Diolch i ti Alaw Lewis, Broncynfelin, Llangorwen am anfon y llun o'r plant yn canu carolau a gyrhaeddodd yn rhy hwyr i'w gynnwys yn rhifyn Ionawr o'r Tincer, gwaetha'r modd. Dyma'r holl blant fu'n lliwio llun Dwynwen:

Alys Griffiths, 91 Bryncastell, Bow Street; Rebecca Jones-Williams, Miramar, Goginan; Elin Gore, Troedrhiwgwynau, Comins-coch; Dafydd Llŷr, 3 Clos Dafydd, Cae Ceredig, Aberystwyth; Carys James, 35 Dôl Helyg, Penrhyn-coch; Megan Lewis, Ystrad, Capel Bangor; Elin Pierce Williams, 46 Bryncastell, Bow Street; Nia Jones, Brynolwg, Bont-goch; Ela Glain a Garan Rhys Thomas, Llandaf; Myfanwy Roberts, 4 Maes Seilo, Penrhyn-coch; Gwion Iwan, Morgan Iwan, a Gruffudd Iwan Ebenezer Ellis, Gwaelod-y-garth; Manon, 2 Tanygeulan, Capel Bangor; Martha Rowlands, Talar deg, Penrhyn-coch.

Ti, Carys James sy'n ennill y tro hwn. Llongyfarchiadau mawr! Roeddet wedi rhoi adar ac ambell bili pala yn dy lun, Hyfryd!

Wel, rhaid sôn am Dewi Sant y tro hwn, gan fod Mawrth y cyntaf bron â chyrraedd! Rwy'n siwr y bydd sawl un ohonoch chi yn gwisgo gwisg Gymreig, neu grys rygbi coch ar y diwrnod mawr, a pheidiwch ag anghofio'r genhinen Bedr! Roedd Dewi, ond yn ôl yr hanes, yn byw amser maith yn ôl, yn y 6ed ganrif. Sandde, brenin Ceredigion oedd tad Dewi, a Non oedd ei fam. Mynach oedd Dewi, yn byw bywyd syml a da, gan ddweud wrth ei ffrindiau am "wneud y pethau bychain" roedden nhw wedi gweld Dewi ei hun yn eu gwneud. Mae sôn iddo fyw nes ei fod dros 100 oed, a chladdwyd Dewi yn Nhyddewi, sir Benfro. Rwy'n siwr bod rhai ohonoch wedi bod i'r eglwys gadeiriol hardd yno.

Y mis hwn, beth am liwio llun Dewi Sant? Mwynhewch eich cawl a'ch pice bach ar Ddydd Gŵyl Ddewi! Anfonwch eich gwaith i'r cyfeiriad arferol (46 Bryncastell, Bow Street, Ceredigion, SY24 5DE) erbyn Mawrth 1af. Ta ta tan toc!



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Oed | Rhif ffôn

FFENESTRI
IMEJ
FFENESTRI PVCu, HEULFANNAU, DRYSAU a.y.y.b. Am y GWASANETH, PRIS a'r SAFON GORAU gan GWMNI LLEOL
*Sefydledig dros 30 mlynedd*
Edrychwch am y Tŷ Twt
01970 880330
Marilyn a Ifor Jones
Cofrestrwyd gyda FENSA

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >
Rhif 346 | CHWEFROR 2012